

CBAC Lefel 2

Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd

Cymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru

Mae'r cymhwyster hwn yn rhan o'r gyfres newydd o gymwysterau lechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant yng Nghymru a ddarperir gan City&Guilds/CBAC.

Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

Manyleb



Cipolwg ar y cymhwyster

Maes pwnc	Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant
Rhif CBAC	
Rhif QiW	C00/1238/5
Grŵp oedran cymeradwy	16 +
Gofynion cofrestru	Dim
Asesu	3 asesiad mewnol seiliedig ar senario 1 prawf dewis lluosog i'w osod a'i farcio'n allanol
Cymeradwyaethau	Mae angen cymeradwyo'r ganolfan a'r cymhwyster
Dogfennau cysylltiedig	Deunyddiau asesu enghreifftiol Canllawiau Addysgu Canllaw i Ddysgwyr Llawlyfr Gweinyddu Canolfannau
Ymrestru ac ardystio	Gweler y manylion ar wefan y Consortiwm

Cynnwys

Cynnwys	3
1 Cyflwyniad	4
Ynglŷn â'r cymhwyster	4
Nodau ac amcanion y cymhwyster	6
Strwythur	6
Oriau Dysgu Dan Arweiniad (ODA) a Chyfanswm Amser Cymhwyso (CAC)	6
2 Crynodeb o'r asesu	7
Asesiad Mewnol	7
Prawf Dewis Lluosog Allanol	8
Addasiadau Rhesymol	9
3 Unedau	10
Uned 001 Egwyddorion a Gwerthoedd Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant (0-19 oed)	12
Uned 002 Iechyd, Llesiant, Dysgu a Datblygu	20
Uned 003 Ymarfer Proffesiynol fel Gweithiwr Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant	27
Uned 004 Diogelu Plant	33
Uned 005 Iechyd a Diogelwch mewn Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant	38
4 Gofynion canolfannau	44
Cymeradwyo Canolfannau a Chymwysterau	44
Staff canolfannau	44
5 Cyflwyno'r cymhwyster, ei asesu a sicrhau ei ansawdd	46
Cofrestru dysgwyr	46
Asesu cychwynnol a sefydlu	46
Deunyddiau cefnogi	46
Trefniadau asesu mewnol	47
Monitro asesiad mewnol yn allanol	50
Trefniadau asesu allanol	50

1 Cyflwyniad

Ynglŷn â'r cymhwyster

Ar gyfer pwy mae'r cymhwyster?

Mae'r cymhwyster hwn ar gyfer dysgwyr ôl-16 yng Nghymru, sy'n gweithio, neu sydd am weithio, mewn lleoliadau gofal plant wedi'u rheoleiddio gyda theuluoedd/gofalwyr a phlant o dan 8 oed a/neu wasanaethau plant y GIG ar gyfer y rhai sy'n gweithio gyda theuluoedd/gofalwyr a phlant 0-19 oed. Mae hyn yn cynnwys lleoliadau iechyd plant.

Cafodd ei ddatblygu gan Consortiwm City & Guilds/CBAC mewn partneriaeth â rhanddeiliaid o'r sector gofal plant ac iechyd plant gan gynnwys Gofal Cymdeithasol Cymru, Addysg a Gwella Iechyd Cymru, tiwtoriaid, athrawon ac aseswyr dysgu seiliedig ar waith.

Bwriedir iddi gael ei chyflwyno gan amrywiaeth o ganolfannau, gan gynnwys dysgu seiliedig ar waith, addysg bellach ac ysgolion.

Beth mae'r cymhwyster yn ei gynnwys?

Mae'r cymhwyster yn ymdrin â gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol o'r Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan newydd ar gyfer y Blynnyddoedd Cynnar a Gofal Plant, ac mae'n adlewyrchu amrywiaeth o wahanol rolau ac oedrannau. Mae'r cynnwys yn ymdrin â'r canlynol:

- egwyddorion a gwerthoedd gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant
- iechyd, llesiant, proses ddysgu a datblygiad
- ymarfer proffesiynol fel gweithiwr blynnyddoedd cynnar a gofal plant
- diogelu plant
- iechyd a diogelwch mewn gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant

Mae disgwyl i ddysgwyr fod wedi cwblhau'r cymhwyster hwn cyn neu ochr yn ochr â chymwysterau ymarfer lefel 2 a 3 ym maes Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant.

Pa gyfleoedd sydd i ddatblygu?

Mae'r cymhwyster hwn yn cefnogi dysgwyr i symud ymlaen i ennill cymwysterau pellach gan gynnwys y cymwysterau canlynol sy'n rhan o'r gyfres o gymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant i Gymru.

- Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer
- Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori
- Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer
- Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori

Mae'r cymhwyster hwn hefyd yn cefnogi cyfleoedd gwaith. Fodd bynnag, dylid nodi:

Mae'n amod bod Gofal Cymdeithasol Cymru yn cynnal rhestr o'r cymwysterau gofynnol y mae angen eu dal gan unrhyw un sy'n gweithio yn y sector gofal, dysgu, chwarae a datblygiad plant. Un o'r gofynion fydd ar y rhestr hon yw bod y rheini sy'n gweithio yn y sector gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant yn meddu ar y cymhwyster Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd a chymhwyster ymarfer sy'n berthnasol i'r rôl. Am ragor o wybodaeth am ofynion gweithio yn y sector Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant, gweler fframwaith cymwysterau Gofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer gofal cymdeithasol a gofal plant wedi'i reoleiddio yng Nghymru

<https://socialcare.wales/resources/qualification-framework-for-the-social-care-sector-in-wales>.

Hefyd, bydd angen i'r rheini sy'n gweithio mewn lleoliadau gofal plant wedi'u rheoleiddio gyda phlant 8-12 oed ennill cymhwyster gwaith chwarae ychwanegol a enwir gan Skills Active i fodloni gofynion y rheoleiddwyr.

Nodau ac amcanion y cymhwyster

Mae'r cymhwyster Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd yn galluogi dysgwyr i:

- feithrin eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r egwyddorion a'r gwerthoedd craidd sy'n sail i ymarfer gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant
- meithrin eu gwybodaeth a dealltwriaeth o ffyrdd o weithio yn y sectorau gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant
- meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth sy'n llywio ymarfer effeithiol yn y maes gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant
- bod â gwybodaeth a dealltwriaeth sy'n greiddiol i'w cefnogi wrth symud ymlaen i astudio ymhellach neu i gael gwaith yn y maes gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.

Strwythur

Cymhwyster llinol yw'r cymhwyster Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd. I ennill y cymhwyster, rhaid i ddysgwyr gyflawni'r pum uned orfodol ganlynol:

Rhif yr Uned	Teitl yr Uned	Oriau Dysgu dan Arweiniad
001	Egwyddorion a Gwerthoedd Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant (0-19 oed)	100
002	Iechyd, Llesiant, Dysgu a Datblygiad	80
003	Ymarfer Proffesiynol fel Gweithiwr Blynnyddoedd Cynnar a Gofal Plant	50
004	Diogelu Plant	40
005	Iechyd a Diogelwch mewn Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant	30
Cyfanswm		300

Oriau Dysgu Dan Arweiniad (ODA) a Chyfanswm Amser Cymhwyso (CAC)

Mae Oriau Dysgu Dan Arweiniad yn rhoi syniad i ganolfannau faint o amser dysgu ac asesu *dan oruchwyliaeth* sydd ei angen i gyflwyno'r uned ac yn gallu cael eu defnyddio at bwrpasau cynllunio. Nodwyd ODA fesul uned. Fodd bynnag, gall canolfannau ddewis cyflwyno'r cymhwyster hwn mewn ffordd gyfannol ac felly dim ond syniad bras yw ODA yr uned. Y Cyfanswm Amser Cymhwyso (CAC) yw'r cyfanswm o amser, mewn oriau, y disgwylir i ddysgwr ei dreulio er mwyn ennill cymhwyster. Mae'n cynnwys ODA ac oriau a dreulir yn paratoi, yn astudio ac yn cyflawni rhai gweithgareddau asesu ffurfiannol, y gall rhai ohonyn nhw fod yn y gweithle/lleoliad. Cyfanswm Amser Cymhwyso'r cymhwyster hwn yw 320 awr.

2 Crynodeb o'r asesu

I ennill y cymhwyster, rhaid i ymgeiswyr **llwyddo** yn y canlynol:

- tri asesiad mewnol, seiliedig ar senario mewnol, a osodir yn allanol; ac
- un prawf dewis lluosog i'w osod yn allanol a'i farcio'n allanol.

Asesiad Mewnol

Mae'r asesiadau mewnol yn asesu cynnwys o Unedau 001, 002, 003 a 004. Mae'r tabl isod yn dangos nifer y marciau o bob uned ar gyfer pob un o'r tri asesiad. Er y bydd nifer y marciau ar gyfer pob uned yr un peth ym mhob asesiad, gall nifer y cwestiynau/tasgau amrywio.

Asesiad	Uned	Marciau
1	001 Egwyddorion a Gwerthoedd Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant (0-19 oed)	9
	002 Iechyd, Llesiant, Dysgu a Datblygiad	21
	Cyfanswm	30
2	001 Egwyddorion a Gwerthoedd Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant (0-19 oed)	9
	003 Ymarfer Proffesiynol fel Gweithiwr Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant	21
	Cyfanswm	30
3	001 Egwyddorion a Gwerthoedd Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant (0-19 oed)	9
	004 Diogelu Plant	21
	Cyfanswm	30

Mae pob asesiad mewnol:

- yn seiliedig ar senario i'w ryddhau ymlaen llaw sy'n **gorfod** cael ei rannu ag ymgeiswyr bythefnos cyn yr asesiad
- yn cynnwys cyfres o gwestiynau/tasgau **na ddylid** eu rhannu ag ymgeiswyr cyn yr asesiad
- yn gorfod cael ei gynnal o dan yr amodau a nodir yn y Pecyn Asesu
- yn para 60 munud
- yn cynnwys cynllun marcio i'w ddefnyddio gan ganolfannau wrth farcio gwaith ymgeiswyr
- yn gofyn am ennill marc sydd tua 75% er mwyn llwyddo¹
- yn derbyn gradd llwyddo neu fethu.

Gall ymgeiswyr roi cynnig ar bob asesiad mewnol ar unrhyw adeg yn ystod eu rhaglen ddysgu.

¹ Gall y marc llwyddo amrywio ychydig rhwng fersiynau er mwyn cyfrif am fân amrywiadau yn lefel yr her rhwng eitemau unigol.

Trefniadau ailsefyll

Gall ymgeiswyr nad ydynt yn ennill digon o farciau i lwyddo mewn asesiad mewnol ailsefyll yr asesiad gan ddefnyddio cyfres newydd o gwestiynau/tasgau. Os bydd ymgeisydd wedi rhoi cynnig ar bob cyfres o gwestiynau/tasgau, **rhaid** defnyddio astudiaeth achos newydd a chyfres newydd o gwestiynau/tasgau.

Prawf Dewis Lluosog Allanol

Mae'r prawf dewis lluosog allanol yn asesu cynnwys o bob un o'r pum uned. Dim ond drwy'r asesiad hwn y caiff Uned 005 ei hasesu. Mae'r tabl isod yn dangos nifer yr eitemau a marciau fydd yn deillio o bob uned.

Hyd y prawf: 1 awr 15 munud	Nifer y cwestiynau/marciau
001 Egwyddorion a Gwerthoedd Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant (0-19 oed)	10
002 Iechyd, Llesiant, Dysgu a Datblygiad	10
003 Ymarfer Proffesiynol fel Gweithiwr Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant	8
004 Diogelu Plant	8
005 Iechyd a Diogelwch mewn Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant	14
Cyfanswm	50

Mae'r asesiad allanol:

- ar gael ar-sgrin neu ar bapur, gweler dogfen y CGC 'Cyfarwyddiadau ar gynnal arholiadau'. Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan y Cyd-gyngor Cymwysterau (www.JCQ.co.uk).
- yn para 75 munud
- yn cael ei ddewis ar hap o blith sawl fersiwn
- yn cynnwys 50 o gwestiynau
- yn gofyn am ennill marc sydd tua 75% er mwyn llwyddo²
- yn derbyn gradd llwyddo neu fethu

Rhyddhau Canlyniadau

Defnyddir dull marcio awtomatig i farcio profion ar-sgrin a bydd y ganolfan yn derbyn y canlyniadau ar yr un diwrnod ag y cwblheir yr asesiad.

Bydd angen i ganolfannau ddychwelyd fersiynau papur o brofion i CBAC i'w marcio. Bydd canlyniadau'n cael eu rhyddhau i'r canolfannau o fewn 20 diwrnod gwaith i'w derbyn.

Trefniadau ailsefyll

Mae'n bosibl i unrhyw ymgeiswyr nad ydynt yn ennill digon o farciau i lwyddo mewn asesiad allanol ailsefyll prawf newydd.

²Gall y marc llwyddo amrywio ychydig rhwng papurau er mwyn cyfrif am fân amrywiadau yn lefel yr her rhwng eitemau unigol.

Addasiadau Rhesymol

Bydd addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud ar gyfer rhai dysgwyr fel bod yr asesiadau o fewn eu cyrraedd. Mae dogfen y Cyd-gyngor Cymwysterau '*Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol*' yn cynnwys gwybodaeth am addasiadau rhesymol. Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan y CGC (www.jcq.org.uk) yn Saesneg ac yn Gymraeg ar wefan CBAC (www.cbac.co.uk).

3 Unedau

Mae'r holl unedau yn y ddogfen hon.

Rhif yr Uned	Teitl yr uned
001	Egwyddorion a Gwerthoedd Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant (0-19 oed)
002	Iechyd, Llesiant, Dysgu a Datblygiad
003	Ymarfer Proffesiynol fel Gweithiwr Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant
004	Diogelu Plant
005	Iechyd a Diogelwch mewn Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant

Deilliannau dysgu a defnyddio berfau gorchmynnol

Mae dau fath o ddeiliant dysgu yn y cymhwyster Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd:

- Deilliannau dysgu sy'n gofyn i ymgeiswyr ddangos *gwybodaeth* am faes dysgu penodol
 - Deilliannau dysgu sy'n gofyn i ymgeiswyr ddangos *dealltwriaeth* o faes dysgu penodol
- Asesir pob math o ddeiliant dysgu gan ddefnyddio amrywiaeth o ferfau gorchmynnol cysylltiedig. Defnyddir berfau gorchmynnol i ddynodi pa sgil(iau) y bydd angen i ymgeiswyr ei dangos neu eu dangos wrth ymateb i dasgau neu gwestiynau. Bydd cwestiynau a thasgau sy'n ymwneud â deilliannau dysgu seiliedig ar wybodaeth h.y. *'bydd y dysgwr yn gwybod...'* yn defnyddio'r berfau gorchmynnol canlynol:

Berf Orchmynnol	Disgrifiad
Diffiniwch	Rhowch union ystyr
Disgrifiwch	Rhowch nodweddion / prif elfennau neu hanes cryno
Rhowch	Darparwch / enwch / dewiswch / nodwch ffeithiau cryno neu enghreifftiau (o ffynhonnell benodol neu drwy ddwyn i gof)
Nodwch (<i>Identify</i>)	Fel yn achos 'rhowch'
Rhestrwch	Fel yn achos 'rhowch'
Enwch	Fel yn achos 'rhowch'
Nodwch (<i>State</i>)	Fel yn achos 'rhowch'
Awgrymwch	Rhowch syniad, rheswm neu ddull gweithredu posibl
Rhowch grynoded	Dewiswch a chyflwynwch y prif bwyntiau (heb fanylion)

Bydd cwestiynau a thasgau sy'n ymwneud â deall deilliannau dysgu seiliedig ar ddealltwriaeth h.y. 'bydd y dysgwr yn deall...' yn defnyddio'r berfau gorchmynnol canlynol:

Berf Orchmynnol	Disgrifiad
Addaswch	Defnyddiwch ddiagram neu eiriau i wneud yn glir sut mae cysyniad neu theori yn gweithio mewn cyd-destun penodol
Cymhwyswch	Defnyddiwch wybodaeth a dealltwriaeth o theori neu gysyniad a chysylltu hynny â chyd-destun penodol
Disgrifiwch	Rhowch fanylion effaith, h.y. yr hyn sydd wedi newid/digwydd
Esboniwch	Rhowch fanylion a rhesymau i egluro sut a pham mae rhywbeth fel y mae
Eglurwch	Defnyddiwch ddiagram neu eiriau i wneud yn glir sut mae cysyniad neu theori yn gweithio mewn cyd-destun penodol
Amlinellwch	Nodwch y prif bwyntiau/rhowch ddisgrifiad byr neu nodwch y prif nodweddion
Dangoswch	Fel yn achos 'eglwurwch'
Defnyddiwch	Cymhwyswch y wybodaeth a roddwyd at theori neu gysyniad penodol

Rhoi syniad o'r hyn sydd i'w ddisgwyl pan ddefnyddir y geiriau hyn wrth asesu yw bwriad y rhestr hon o ferfau gorchymyn. Mae'n bwysig sylweddoli fodd bynnag nad ydynt yn eiriau sy'n annibynnol y tu allan i'r cyd-destun penodol. Ni ddylai ymgeiswyr, wrth baratoi i gael eu profi, ganolbwyntio ar ddysgu ystyron y geiriau hyn heb ystyried gweddill y cwestiwn. Dylid eu cefnogi o ran dehongli'r cwestiwn neu'r dasg yn gyflawn, e.e. defnyddio'r asesiadau enghreifftiol ac unrhyw ddeunyddiau eraill sydd ar gael.

Canllawiau cyflwyno a'r defnydd o brint trwm mewn meini prawf asesu

Mae'r canllawiau hyn ar gyfer tiwtoriaid, hyfforddwyr neu hwyluswyr wrth addysgu'r uned ac yn rhoi pethau penodol i'w hystyried wrth gyflwyno cynnwys yr uned lle bo'n gymwys. Er enghraifft, tynnir sylw at enghreifftiau o'r cynnwys i ymdrin ag ef wrth gyflwyno'r cymhwyster; neu ddiffiniadau penodol a ddylai gael eu defnyddio i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r cymhwyster. Mae meysydd o gynnwys sy'n cael eu rhoi fel enghreifftiau yn yr adran ar ganllawiau cyflwyno wedi'u nodi mewn print trwm ym mhrif gorff y cynnwys.

Uned 001

Egwyddorion a Gwerthoedd Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant (0-19 oed)

Lefel:	Lefel 2
ODA:	100
Nod:	Meithrin dealltwriaeth y dysgwyr o wybodaeth sylfaenol am Egwyddorion a Gwerthoedd Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant (0-19 oed).
Trosolwg o'r uned:	Bydd yr uned hon yn sicrhau bod dysgwyr yn dod i wybod sut mae deddfwriaeth, polisiau cenedlaethol, canllawiau a fframweithiau'n cefnogi gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant. Bydd y dysgwyr yn deall yr angen i hybu cydraddoldeb, cynhwysiant ac amrywiaeth a'r ffordd y mae dulliau plant-ganolog a seiliedig ar hawliau yn gysylltiedig â gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant. Yn rhan o hyn mae'r ffordd y mae cymryd risgiau priodol yn cefnogi llesiant a chanlyniadau cadarnhaol i blant. Bydd y dysgwyr yn gwerthfawrogi pwysigrwydd cyfathrebu effeithiol, gan gynnwys rôl y Gymraeg a diwylliant Cymru, wrth gefnogi gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant a'r ffordd y gall cyfnodau o newid a phontio effeithio ar blant. Byddan nhw'n dod i ddeall sut i feithrin perthnasoedd cadarnhaol â phlant o fewn ffiniau proffesiynol a'r dulliau sy'n cefnogi ymddygiad cadarnhaol. Mae hyn yn cynnwys y ffordd y gall credoau, gwerthoedd a phrofiadau bywyd y dysgwyr effeithio ar agwedd y dysgwr a'r ffordd mae'n ymddwyn tuag at blant a'u teuluoedd/gofalwyr.
Math o asesiad:	Asesiad mewnol a phrawf dewis lluosog.

Deilliant dysgu

Bydd y dysgwr yn:

1. Deall sut mae deddfwriaeth, polisiau cenedlaethol, canllawiau a fframweithiau yn cefnogi gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.

Meini prawf asesu

Bydd y dysgwr yn cael ei asesu ar:

- 1.1 **deddfwriaeth, polisiau cenedlaethol, canllawiau, safonau a fframweithiau** sy'n sail i ofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant
- 1.2 yr egwyddorion sy'n sail i ymarfer mewn gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant
- 1.3 pam mae'r egwyddorion hyn yn bwysig i ofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant a sut maen nhw'n cefnogi ymarfer
- 1.4 **Codau Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol**, i bwy maen nhw'n berthnasol a sut mae'n bosibl eu defnyddio.

Deilliant dysgu

Bydd y dysgwr yn:

2. Deall sut mae dulliau seiliedig ar hawliau yn ymwneud â gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.

Meini prawf asesu

Bydd y dysgwr yn cael ei asesu ar:

- 2.1 ystyr dull seiliedig ar hawliau
- 2.2 sut mae deddfwriaeth a pholisïau cenedlaethol yn cefnogi dull seiliedig ar hawliau o ran gofal plant
- 2.3 beth mae'r ddeddfwriaeth hon yn ei olygu'n ymarferol
- 2.4 y term eiriolaeth a sut mae'n gallu cefnogi dull seiliedig ar hawliau
- 2.5 sut mae plant a'u teuluoedd/gofalwyr yn gallu cael eu cefnogi i wneud cwyn neu fynegi pryder am wasanaeth.

Deilliant dysgu

Bydd y dysgwr yn:

3. Deall sut i hybu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

Meini prawf asesu

Bydd y dysgwr yn cael ei asesu ar:

- 3.1 y termau 'cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a gwahaniaethu'
- 3.2 ffyrdd mae dulliau plentyn ganolog yn hybu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant
- 3.3 sut mae cefndiroedd diwylliannol, crefyddol ac ieithyddol plant a'u teuluoedd/gofalwyr yn gallu cael eu gwerthfawrogi
- 3.4 ffyrdd y gall gwahaniaethu neu ymarfer nad yw'n cefnogi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant gael eu herio.

Deilliant dysgu

Bydd y dysgwr yn:

4. Deall sut i ddefnyddio dulliau plentyn ganolog.

Meini prawf asesu

Bydd y dysgwr yn cael ei asesu ar:

- 4.1 beth yw ystyr y term 'dulliau plentyn ganolog'
- 4.2 pwysigrwydd dulliau plentyn ganolog
- 4.3 beth yw ystyr 'gweithio ar y cyd' wrth weithio gyda phlant a'u teuluoedd/gofalwyr
- 4.4 beth yw ystyr 'llais, dewis a rheolaeth'
- 4.5 pwysigrwydd gwybod beth yw cefndir plentyn a'i ddewisiadau (y cymysgedd unigryw o brofiad plentyn, a'i hanes, diwylliant, credoau, dewisiadau, perthnasoedd teuluol, rhwydweithiau anffurfiol a chymuned)
- 4.6 ffyrdd o weithio i benderfynu ar ddymuniadau, dewisiadau a chefnidiroedd plant
- 4.7 beth yw ystyr 'trin plant ag urddas a pharch' a pham mae hyn yn ganolog i rôl gweithiwr blynyddoedd cynnar a gofal plant
- 4.8 ffyrdd o weithio sy'n cefnogi dulliau plentyn ganolog
- 4.9 y termau '**gweithgareddau a phrofiadau**'
- 4.10 sut mae dulliau plentyn ganolog yn cael eu defnyddio i gefnogi gweithgareddau a phrofiadau a chynhwysiant
- 4.11 pam ei bod yn bwysig cefnogi cymryd rhan mewn gweithgareddau a phrofiadau sy'n ystyrlon ac yn bleserus
- 4.12 beth yw ystyr 'cyfrifoldeb rhiant'
- 4.13 cael cydsyniad teuluoedd/gofalwyr a phryd y byddai angen hyn
- 4.14 beth yw ystyr cael cydsyniad plentyn wrth ddarparu gofal neu gymorth a pham mae hyn yn bwysig?

Deilliant dysgu

Bydd y dysgwr yn:

5. Deall sut mae bod yn gadarnhaol wrth gymryd risgiau yn cefnogi canlyniadau cadarnhaol i blant.

Meini prawf asesu

Bydd y dysgwr yn cael ei asesu ar:

- 5.1 pwysigrwydd gallu cymryd **risgiau** gan ystyried llesiant plant
- 5.2 hawliau plant i wneud dewisiadau a chymryd risgiau
- 5.3 sut i weithredu wrth gefnogi plant i gymryd risgiau, gan ystyried eu hoedran, cyfnod datblygiad, yr amgylchedd a phrofiadau mewn bywyd gan gynnwys cyfranogiad a chyfrifoldeb rhieni
- 5.4 y term 'asesu risg a budd'
- 5.5 beth yw ystyr 'canlyniadau cadarnhaol'.

Deilliant dysgu

Bydd y dysgwr yn:

6. Deall llesiant yng nghyd-destun gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.

Meini prawf asesu

Bydd y dysgwr yn cael ei asesu ar:

- 6.1 y term 'llesiant'
- 6.2 pam mae llesiant yn bwysig
- 6.3 ffactorau sy'n effeithio ar lesiant plant a'u teuluoedd/gofalwyr
- 6.4 pwysigrwydd teuluoedd/gofalwyr a 'phobl bwysig eraill' o ran llesiant plant
- 6.5 ffyrdd o weithio sy'n cefnogi llesiant a chynhwysiant.

Deilliant dysgu

Bydd y dysgwr yn:

7. Deall sut i feithrin perthnasoedd cadarnhaol yng nghyd-destun 'ffiniau proffesiynol'.

Meini prawf asesu

Bydd y dysgwr yn cael ei asesu ar:

- 7.1 beth yw ystyr 'gwaith perthynas-ganolog'
- 7.2 pwysigrwydd meithrin perthynas gadarnhaol â phlant a'u teuluoedd, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol a sut mae'r rhain yn ymwneud â ffiniau proffesiynol
- 7.3 ymarfer annerbyniol mewn perthnasoedd â phlant, a'u teuluoedd, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol.

Deilliant dysgu

Bydd y dysgwr yn:

8. Deall pwysigrwydd cyfathrebu effeithiol yng nghyd-destun gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.

Meini prawf asesu

Bydd y dysgwr yn cael ei asesu ar:

- 8.1 beth yw ystyr 'cyfathrebu effeithiol'
- 8.2 nodweddion allweddol cyfathrebu effeithiol
- 8.3 y sgiliau sydd eu hangen i gyfathrebu'n effeithiol
- 8.4 pam mae cyfathrebu effeithiol yn bwysig i lesiant plant a pherthnasoedd cadarnhaol â theuluoedd/gofalwyr ac eraill
- 8.5 sut i nodi anghenion, dymuniadau a dewisiadau cyfathrebu ac iaith plant a'u teuluoedd/gofalwyr
- 8.6 sut y bydd cyfnod datblygiad plentyn yn effeithio ar ei sgiliau cyfathrebu
- 8.7 amodau penodol a fyddai'n gallu effeithio ar gyfathrebu ac iaith
- 8.8 y ffyrdd y gall plant ddefnyddio chwarae ac ymddygiad i gyfathrebu
- 8.9 rhwystrau i gyfathrebu effeithiol
- 8.10 ffyrdd o fynd i'r afael â rhwystrau i gyfathrebu effeithiol.

Deilliant dysgu

Bydd y dysgwr yn:

9. Deall pwysigrwydd y Gymraeg a diwylliant Cymru i ofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.

Meini prawf asesu

Bydd y dysgwr yn cael ei asesu ar:

- 9.1 **deddfwriaeth a pholisïau cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg**
- 9.2 manteision bod yn ddwyieithog ac yn amlieithog o ran gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant
- 9.3 pwysigrwydd cydnabod a chefnogi'r Gymraeg a diwylliant Cymru
- 9.4 caffael iaith a dulliau o helpu plant i ddysgu ieithoedd newydd
- 9.5 pwysigrwydd cefnogi cyfleoedd a gweithgareddau sy'n datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth plant o'r Gymraeg a diwylliant Cymru
- 9.6 pwysigrwydd dewis iaith ar ymarfer plentyn ganolog
- 9.7 pwysigrwydd sgiliau Cymraeg yn y gweithle er mwyn cefnogi anghenion, dymuniadau a dewisiadau cyfathrebu ac iaith plant a'u teuluoedd/gofalwyr.

Deilliant dysgu

Bydd y dysgwr yn:

10. Gwybod sut mae'n bosibl defnyddio dulliau cadarnhaol i gefnogi ymddygiad cadarnhaol plant.

Meini prawf asesu

Bydd y dysgwr yn cael ei asesu ar:

- 10.1 ystyr y termau '**dulliau cadarnhaol**' a 'cefnogi ymddygiad cadarnhaol'
- 10.2 yr achosion sylfaenol sy'n effeithio ar ymddygiad plant
- 10.3 pwysigrwydd gweithio gyda phlant, eu teuluoedd, gofalwyr ac eraill er mwyn nodi a chytuno ar nodau cyflawnadwy a ffiniau a fydd yn cefnogi ymddygiad cadarnhaol
- 10.4 pwysigrwydd defnyddio dulliau ac ymatebion cyson gyda phlant er mwyn cefnogi ymddygiad cadarnhaol
- 10.5 y sgiliau a'r technegau sy'n gallu cael eu defnyddio i gefnogi ac annog ymddygiad cadarnhaol plant.

Deilliant dysgu

Bydd y dysgwr yn:

11. Deall sut mae newid a thrawsnewid yn effeithio ar blant.

Meini prawf asesu

Bydd y dysgwr yn cael ei asesu ar:

- 11.1 y mathau o newid a **thrawsnewid** a fyddai'n gallu digwydd yn ystod bywyd plentyn
- 11.2 ffactorau sy'n gwneud unrhyw newid a thrawsnewid yn rhywbeth sy'n gadarnhaol neu'n negyddol
- 11.3 sut i helpu plant i feithrin y sgiliau, yr hyder a'r wybodaeth a fydd yn eu paratoi i newid a thrawsnewid.

Deilliant dysgu

Bydd y dysgwr yn:

12. Deall sut mae ei gredoau, ei werthoedd a'i brofiadau ei hun mewn bywyd yn gallu effeithio ar agweddau ac ymddygiad tuag at blant a'u teuluoedd/gofalwyr.

Meini prawf asesu

Bydd y dysgwr yn cael ei asesu ar:

- 12.1 Effaith ei agweddau a'i ymddygiad ei hun ar blant a'u teuluoedd/gofalwyr.

Uned 001: Canllawiau Cyflwyno

Mae'r ddeddfwriaeth, polisïau, canllawiau, safonau a fframweithiau cenedlaethol yn cynnwys:

- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'r saith nod craidd a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru
Saith Nod Craidd:
 - sicrhau eu bod yn cael dechrau teg i fywyd (y blynyddoedd cynnar)
 - eu bod yn cael amrywiaeth gynhwysfawr o gyfleoedd addysg a dysgu
 - eu bod yn mwynhau'r iechyd gorau posibl ac nad ydynt yn cael eu cam-drin, eu fictimeiddio na'u hecsbloetio
 - sicrhau eu bod yn cael mynediad i gyfleoedd chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliannol
 - sicrhau bod pobl yn gwrando arnyn nhw, yn eu trin â pharch, ac yn cydnabod eu hil a hunaniaeth ddiwylliannol (bod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau)
 - sicrhau bod ganddyn nhw gartref a chymuned sy'n cefnogi llesiant corfforol ac emosiynol
 - sicrhau nad ydyn nhw o dan anfantais oherwydd tlodi.
- Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol
- Y Ddeddf Hawliau Dynol (1998)
- Y Ddeddf Cydraddoldeb (2010)
- cynllun datblygu 10 mlynedd ar gyfer y gweithlu blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae
- Cymru – Gwlad Lle mae Cyfle i Chwarae (Llywodraeth Cymru 2014)
- Deddf Plant 1989 a 2004
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Dylai'r Codau Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol gynnwys y Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gofal Cymdeithasol; Cod Ymddygiad GIG Cymru ar gyfer Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd yng Nghymru lle bo'n berthnasol.

Mae **gweithgareddau a phrofiadau** yn cyfeirio at weithgareddau chwarae, dysgu a hamdden sy'n diwallu anghenion y plentyn neu'r person ifanc yr ydych yn gweithio gydag ef ac yn bodloni ei ddewisiadau a'i alluoedd, fel chwarae yn yr awyr agored, chwarae rhydd, chwarae rôl, gwneud marciau, toes chwarae, sgipio, pêl-droed, darllen ac adrodd stori, gweithgareddau TGCh, celf a chrefft.

Risg: Wrth drafod cymryd risgiau gallai'r mathau o risgiau i'w cefnogi gynnwys:

- risgiau corfforol
- risgiau emosiynol
- risgiau ymddygiadol
- risgiau amgylcheddol.

Deddfwriaeth a pholisïau cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg i gynnwys:

- Cwricwlwm i Gymru, Cwricwlwm am Oes. Llywodraeth Cymru 2015
- Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050
- Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg
- Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg: Y Camau Nesaf
- Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018
- Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (lleol)

Mae **dulliau cadarnhaol** yn seiliedig ar egwyddorion gofal person-ganolog:

- Dod i adnabod y plentyn
- Parchu a gwerthfawrogi ei hanes a'i gefndir a'i ddealltwriaeth:
 - ei hoff bethau a'i gas bethau
 - ei sgiliau a'i allu
 - yr hyn sy'n well ganddo o ran dull cyfathrebu a strwythurau cefnogi
- Deall effaith ei amgylchedd arno a defnyddio hyn i nodi ffyrdd o gynorthwyo pobl yn gyson ym mhob agwedd ar y gofal maen nhw'n ei gael.

Mae'n hanfodol meithrin perthnasoedd da, a dylid gweithredu mewn ffordd gadarnhaol drwy'r amser. Maen nhw'n hanfodol pan fydd rhywun dan bwysau; yn ofidus; ag ofn; yn orbryderus neu'n ddig ac mewn perygl o ymddwyn mewn ffordd sy'n heriol i'w ddiogelwch ef neu hi a / neu ddiogelwch eraill.

Mae dulliau cadarnhaol yn cynnwys gweithio gyda'r plentyn a'i systemau cefnogi er mwyn:

- ceisio deall beth mae rhywun yn ei deimlo a pham ei fod yn ymateb fel y mae
- lle bo modd, gwneud unrhyw newidiadau sydd eu hangen ac ymyrryd yn gynnar yn y broses er mwyn ceisio atal sefyllfaoedd anodd yn y lle cyntaf
- deall beth y mae angen ei gynllunio a'i gyflwyno er mwyn cynorthwyo'r plentyn i reoli gofid a dichter mewn ffordd sy'n lleihau'r angen i ymddwyn mewn ffordd sy'n herio unrhyw gyfyngiadau.

Gall **trawsnewid** gynnwys dechrau meithrinfa am y tro cyntaf, symud o'r feithrinfa i'r ysgol, symud tŷ, marwolaeth anwylyd, perthynas rhieni yn chwalu, genedigaeth brawd neu chwaer, newidiadau eraill sy'n effeithio ar y plentyn neu'r person ifanc.

Uned 002 Iechyd, Llesiant, Dysgu a Datblygu

Lefel:	Lefel 2
ODA:	80
Nod:	Meithrin dealltwriaeth y dysgwyr o gyfnodau datblygiad plant a ffactorau sy'n gallu effeithio ar iechyd, llesiant, dysgu a datblygiad plant.
Trosolwg o'r uned:	Bydd yr uned hon yn sicrhau bod dysgwyr yn dod i wybod am gyfnodau datblygiad plant (0-19 oed) a ffactorau sy'n gallu effeithio ar iechyd, llesiant a datblygiad plant a'u heffaith ar ddatblygiad. Bydd hyn yn cynnwys deall profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, ymlyniad, gwydnwch, hunan-barch, cymryd risgiau, y cysylltiadau rhwng twf deallusol, corfforol ac emosiynol a phwysigrwydd lleferydd, iaith a chyfathrebu. Bydd y dysgwyr yn meithrin dealltwriaeth o natur gyfannol datblygiad a'r ffordd y mae gweithgareddau, chwarae, amgylcheddau, arferion a phrofiadau'n cefnogi hyn. Byddan nhw'n meithrin gwybodaeth am yr effaith ar y strwythur teuluol/gofalwyr a gweithio mewn partneriaeth ar ddatblygiad a llesiant plant a ffyrdd o gefnogi perthnasoedd a phartneriaethau cadarnhaol. Bydd y dysgwyr yn deall pwysigrwydd arsylwi ar ddatblygiad plant, ei fonitro a'i gofnodi gan nodi'n gynnar unrhyw newidiadau neu oedi mewn datblygiad a fyddai'n gallu bod yn achos pryder, egwyddorion cynhwysiant a'r gefnogaeth ychwanegol sydd ei hangen ar blant mwy abl a thalentog. Byddan nhw'n meithrin gwybodaeth am ba mor bwysig yw gofal corfforol priodol, parchus a diogel i blant, a ffyrdd o sicrhau hynny. Mae hyn yn cynnwys gofalu am y croen, y gwallt a'r dannedd ac ystyried gwahanol gefndiroedd, diwylliannau a chrefyddau. Bydd y dysgwyr yn deall pwysigrwydd maeth a hydradu gan gynnwys canllawiau'r llywodraeth. Byddan nhw'n deall cyfrifoldebau, deddfwriaeth a chanllawiau a'u pwysigrwydd wrth roi meddyginiaeth.
Math o asesiad:	Asesiad mewnol a phrawf dewis lluosog.

Deilliant dysgu

Bydd y dysgwr yn:

1. Deall ffactorau sy'n effeithio ar iechyd, llesiant, chwarae, dysgu a datblygiad plant.

Meini prawf asesu

Bydd y dysgwr yn cael ei asesu ar:

- 1.1 y gwahanol gyfnodau o ddatblygiad plant (0-19 oed)
- 1.2 yr amrywiaeth o **ffactorau a fyddai'n gallu effeithio ar iechyd, llesiant a datblygiad personol, corfforol, cymdeithasol ac emosiynol plant** a'r effaith mae hyn yn gallu ei chael arnynt
- 1.3 profiadau andwyol mewn plentyndod a sut mae'r rhain yn gallu effeithio ar iechyd, llesiant, dysgu a datblygiad plant
- 1.4 beth yw ystyr y gair 'ymlyniad' a gallu disgrifio pam ei fod yn rhan bwysig o ddatblygiad a gallu plant i ffurfio perthnasoedd
- 1.5 beth yw ystyr y term 'gwydnwch' a gallu disgrifio pam ei fod yn bwysig i lesiant a datblygiad plant
- 1.6 pwysigrwydd hunaniaeth, hunan-barch a synnwyr o ddiogelwch a pherthyn i lesiant a datblygiad plant
- 1.7 yr hyn sydd ei angen ar blant i ddysgu, datblygu, chwarae ac aros yn iach – yn gorfforol, yn feddyliol ac yn emosiynol
- 1.8 yr amrywiaeth o asiantaethau a gweithwyr a fyddai'n gallu ymwneud â chefnogi iechyd, llesiant, dysgu a datblygiad plant
- 1.9 y cysylltiadau rhwng twf deallusol, corfforol ac emosiynol a sut i gefnogi eu datblygiad
- 1.10 sut mae **meysydd cwricwlwm** yn cefnogi **datblygiad cyfannol** plant
- 1.11 pwysigrwydd cymryd rhan mewn gweithgareddau ystyrion, llawn mwynhad i lesiant a datblygiad twf deallusol, corfforol ac emosiynol
- 1.12 sut i ddefnyddio arferion pob dydd a gweithgareddau a deunyddiau sy'n briodol yn ddatblygiadol a phrofiadau uniongyrchol er mwyn cefnogi iechyd, llesiant, dysgu a datblygiad plant
- 1.13 pwysigrwydd **datblygiad creadigol** i iechyd, llesiant, dysgu a datblygiad plant
- 1.14 beth yw ystyr 'profiadau dysgu'
- 1.15 sut mae datblygiad yn cael ei gefnogi gan brofiadau dysgu
- 1.16 pwysigrwydd hybu hunanhyder teuluoedd/gofalwyr wrth rianta a meithrin eu gallu i uniaethu mewn ffordd gadarnhaol a chymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae gyda'u plant
- 1.17 sut mae strwythur teuluoedd/gofalwyr a threfniadau gofal plant yn gallu effeithio ar y ffordd maen nhw'n gweld y byd a'u hymdeimlad o lesiant
- 1.18 pwysigrwydd ymyrryd yn gynnar a gweithio mewn partneriaeth er mwyn cefnogi iechyd, llesiant, dysgu a datblygiad plant
- 1.19 rôl perthnasoedd a rhwydweithiau cefnogi wrth gefnogi llesiant plant
- 1.20 ffyrdd o weithio sy'n meithrin perthnasoedd cadarnhaol â phlant a theuluoedd/gofalwyr yn seiliedig ar ymddiriedaeth, parch a thosturi
- 1.21 y mathau o newidiadau mewn plentyn a fyddai'n achos pryder
- 1.22 pwysigrwydd arsylwi ar ddatblygiad plant, ei fonitro a'i gofnodi
- 1.23 y defnydd o **fframweithiau datblygu ac asesu** wrth arsylwi ar ddatblygiad plant, ei fonitro a'i gofnodi.

Deilliant dysgu

Bydd y dysgwr yn:

2. Gwybod gwerth trefnu a defnyddio amgylcheddau i gefnogi iechyd, llesiant, dysgu a datblygiad plant.

Meini prawf asesu

Bydd y dysgwr yn cael ei asesu ar:

- 2.1 gofynion rheoleiddiol amgylcheddau mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar
- 2.2 nodweddion **amgylchedd** cadarnhaol
- 2.3 y ffordd y gall yr amgylchedd gefnogi **datblygiad cyfannol** plant
- 2.4 y ffordd y gall yr amgylchedd gefnogi datblygiad plant yn unol â **fframweithiau cwricwlwm a meysydd cwricwlwm**
- 2.5 y ffordd y gall yr amgylchedd gefnogi cynnwys pob plentyn yn y lleoliad gan gynnwys y rheini ag anghenion ychwanegol
- 2.6 pwysigrwydd sicrhau bod yr amgylchedd yn groesawgar, yn meithrin plant, yn ddiogel, yn lân, yn llawn ysgogiad ac yn ystyried anghenion, diddordebau a dewisiadau plant
- 2.7 pwysigrwydd cydbwysu cyfnodau o weithgarwch corfforol â gorffwys ac amser tawel er mwyn cefnogi iechyd, llesiant a datblygiad plant
- 2.8 pwysigrwydd arferion cyson er mwyn cefnogi llesiant a datblygiad plant.

Deilliant dysgu

Bydd y dysgwr yn:

3. Deall rôl chwarae wrth gefnogi iechyd, llesiant, dysgu a datblygiad plant.

Meini prawf asesu

Bydd y dysgwr yn cael ei asesu ar:

- 3.1 beth yw ystyr y term 'egwyddorion gwaith chwarae'
- 3.2 pwysigrwydd chwarae er mwyn cefnogi iechyd, llesiant, dysgu a datblygiad plant
- 3.3 rôl 'chwarae' i blentyn wrth ddeall ei hun
- 3.4 y **gwahanol fathau o chwarae** a'u manteision
- 3.5 sut mae'r amgylchedd a'r dewis o gyfarpar a deunyddiau yn cael eu defnyddio i gefnogi chwarae
- 3.6 sut i gefnogi datblygiad cyfannol drwy chwarae
- 3.7 sut mae chwarae yn helpu plant i ddysgu amdany'n nhw eu hunain, y rhai o'u cwmpas a'r amgylchedd ehangach
- 3.8 sut mae plant yn gallu defnyddio chwarae i fynegi emosiwn, ofn, gorbryder neu gopïo ymddygiad maen nhw wedi'i weld
- 3.9 sut i gynnwys plant wrth greu gwahanol fathau o fannau chwarae
- 3.10 sut i nodi p'un a yw man chwarae yn ysgogol, yn heriol, yn ymlaciol neu'n dawel
- 3.11 pam mae risg yn bwysig wrth chwarae a sut i annog, a chefnogi lefelau derbyniol o risg
- 3.12 sut i gydbwysu cymryd risgiau â manteision datblygiadol iechyd, llesiant, dysgu a datblygiad plant.

Deilliant dysgu

Bydd y dysgwr yn:

4. Gwybod sut i gefnogi datblygiad iaith, lleferydd a chyfathrebu.

Meini prawf asesu

Bydd y dysgwr yn cael ei asesu ar:

- 4.1 pwysigrwydd iaith, lleferydd a chyfathrebu i lesiant, dysgu a datblygiad plant
- 4.2 effaith anawsterau iaith, lleferydd a chyfathrebu ar ddatblygiad plant
- 4.3 pwysigrwydd ymyrryd yn gynnar o ran oedi mewn iaith, lleferydd a chyfathrebu ac anhwylderau cysylltiedig
- 4.4 sut mae timau amlasiantaethol yn cydweithio er mwyn cefnogi iaith, lleferydd a chyfathrebu
- 4.5 ffyrdd y gall oedolion gefnogi datblygiad iaith, lleferydd a chyfathrebu plant
- 4.6 sut mae chwarae a gweithgareddau yn cael eu defnyddio i gefnogi datblygiad iaith, lleferydd a chyfathrebu.

Deilliant dysgu

Bydd y dysgwr yn:

5. Gwybod sut i gefnogi iechyd, llesiant, dysgu a datblygiad plant ag anghenion cefnogi ychwanegol.

Meini prawf asesu

Bydd y dysgwr yn cael ei asesu ar:

- 5.1 fframweithiau cyfreithiol sy'n gymwys i ddarparu gwasanaethau i blant ag anghenion ychwanegol
- 5.2 y mathau o **anghenion cefnogi ychwanegol** a fyddai'n gallu bod gan blant
- 5.3 sut gellir cefnogi plant mwy abl a thalentog
- 5.4 sut i ddysgu am anghenion cefnogaeth ychwanegol plant
- 5.5 egwyddorion cynhwysiant i blant ag anghenion cymorth ychwanegol
- 5.6 sut i addasu gweithgareddau fel bod pob plentyn yn gallu cymryd rhan.

Deilliant dysgu

Bydd y dysgwr yn:

6. Gwybod sut i gefnogi plant o ran eu gofal corfforol.

Meini prawf asesu

Bydd y dysgwr yn cael ei asesu ar:

- 6.1 pwysigrwydd cefnogi **arferion gofal corfforol** plant
- 6.2 sut i drin plant ag urddas a pharch wrth eu cefnogi gyda'u harferion gofal corfforol gan ystyried eu cefndir, diwylliant a chrefydd
- 6.3 sut i gefnogi plant gyda'u harferion gofal corfforol mewn ffordd sy'n diogelu'r plentyn a'r oedolion sy'n gofalu amdano
- 6.4 sut i ofalu am groen, gwallt a dannedd plant
- 6.5 o ble i gael gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth ychwanegol o ran arferion gofal corfforol plant.

Deilliant dysgu

Bydd y dysgwr yn:

7. Deall pwysigrwydd maeth a hydradu i iechyd a llesiant plant.

Meini prawf asesu

Bydd y dysgwr yn cael ei asesu ar:

- 7.1 beth yw ystyr y termau 'maeth' a 'hydradu'
- 7.2 egwyddorion deiet cytbwys a hydradu da i blant
- 7.3 argymhellion y llywodraeth o ran deiet cytbwys a hydradu
- 7.4 mentrau lleol a chenedlaethol sy'n cefnogi maeth a hydradu
- 7.5 pwysigrwydd deiet cytbwys er mwyn cefnogi iechyd, datblygiad a thwf plant i'r graddau gorau posibl
- 7.6 **ffactorau** sy'n gallu effeithio ar faeth a hydradu
- 7.7 sut i annog plant i wneud dewisiadau iach o ran bwyd.

Deilliant dysgu

Bydd y dysgwr yn:

8. Deall y rolau a'r cyfrifoldebau sy'n ymwneud â rhoi a storio meddyginiaeth mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar a gofal plant.

Meini prawf asesu

Bydd y dysgwr yn cael ei asesu ar:

- 8.1 deddfwriaeth a chanllawiau cenedlaethol sy'n ymwneud â rhoi a storio meddyginiaeth
- 8.2 rolau a chyfrifoldebau'r sawl sy'n ymwneud â chefnogi'r defnydd o feddyginiaeth a'i storio
- 8.3 y cysylltiadau rhwng rhoi'r feddyginiaeth anghywir a diogelu
- 8.4 pwysigrwydd cofnodi gwybodaeth am drefn weinyddol rhoi meddyginiaeth.

Uned 002: Canllawiau Cyflwyno

Gall 'ffactorau a fyddai'n gallu effeithio ar iechyd, llesiant a datblygiad personol, corfforol, cymdeithasol ac emosiynol plant' gynnwys amgylchiadau andwyol neu drawma cyn neu yn ystod genedigaeth; ymlyniad; cyflwr sbectrwem awtistig; amgylchiadau teuluol; niwed neu gam-drin; anaf; anghenion dysgu ychwanegol; cyflyrau meddygol (cronig neu aciwt); iechyd meddwl (gan gynnwys hunan-niwed ac anorecsia); anabledd corfforol; afiechyd corfforol; amharu ar leoliad; tloidi; anghenion dyrys neu gymhleth; anghenion synhwyrdd; sefydlogrwydd; amddifadedd cymdeithasol; camddefnyddio sylweddau.

Fframweithiau Cwricwlwm a Meysydd Cwricwlwm yw'r safonau a'r canllawiau sy'n nodi'r disgwyliadau a'r gofynion ar gyfer dysgu a datblygu i blant cyn ysgol a phlant oedran ysgol o'r cyfnod sylfaen gan gynnwys:

- datblygiad personol a chymdeithasol, llesiant ac amrywiaeth ddiwylliannol
- sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu
- gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd
- datblygiad corfforol
- datblygiad creadigol
- datblygiad mathemategol
- datblygiad y Gymraeg.

Mae **datblygiad cyfannol** yn cyfeirio at blant yn meithrin sgiliau a chymhwysedd drwy ddysgu a chwarae wedi'i gynllunio i feithrin eu sgiliau corfforol, cymdeithasol, emosiynol, deallusol, gwybyddol ac ieithyddol.

Mae **Datblygu Creadigol** yn cynnwys:

- meithrin dychymyg a chwarae llawn dychymyg
- ymateb i brofiadau, mynegi syniadau
- archwilio cyfryngau a deunyddiau
- celfyddydau creadigol traddodiadol
- cerddoriaeth, dawns a symud
- chwarae anniben.

Mae **fframweithiau datblygu ac asesu** yn fframweithiau sydd wedi'u cydnabod yn genedlaethol ar gyfer cofnodi dysgu a datblygiad plant. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Fframwaith Datblygu ac Asesu'r Blynyddoedd Cynnar
- Amserlen Sgiliau Tyfu.

Mae **amgylchedd** yn cyfeirio at yr amrywiaeth o leoliadau ffisegol, cyd-destunau a diwylliannau lle mae plant yn dysgu drwy arbrofi a chwarae.

Yr egwyddorion gwaith chwarae –

<http://www.chwaraecymru.org.uk/cym/egwyddoriongwaithchwarae>

Gallai **mathau gwahanol o chwarae** gynnwys:

- chwarae'n greadigol
- chwarae corfforol
- chwarae llawn dychymyg/dychmygu neu chwarae rôl
- chwarae amgylcheddol
- chwarae mewn amgylchedd strwythuredig
- chwarae anstrwythuredig
- chwarae hunangyfeiriedig
- chwarae wedi'i hwyluso gan oedolyn.

Mae **anghenion cefnogi ychwanegol** yn cynnwys:

- anabledd corfforol
- anghenion dysgu ychwanegol
- Awtistiaeth
- anghenion iechyd ychwanegol
- colli synhwyrâu
- anawsterau emosiynol ac ymddygiadol
- Anhwylder Diffyg Canolbwytio a Gorfywigrwydd
- Dyslecsia
- Dyspracsia
- anghenion lluosog cymhleth
- Anhwylder ymlyniad.

Gallai **arferion gofal corfforol** gynnwys:

- mynd i'r toiled
- golchi dwylo
- gofalu am y croen
- gofal y geg
- cyfleoedd i orffwys, cael amser tawel neu gysgu
- amddiffyn rhag yr haul/oerfel
- gofalu am ardal y cewyn.
- bwydo.

Gall **ffactorau** gynnwys:

- incwm isel a thlodi plant
- ffactorau seicolegol, e.e. gorbryder rhieni, anhwylderau bwyta
- sgiliau a gwybodaeth
- darpariaeth bwyd mewn lleoliadau, e.e. ysgolion, meithrinfeydd, lleoliadau ieuenctid
- yn dilyn deiet arbennig
- ffactorau corfforol, e.e. lleoli, anawsterau llyncu, iechyd y geg
- problemau iechyd, e.e. rhwymedd, anaemia.
- cyfryngau torfol a hysbysebu
- dylanwad teulu a chymheiriaid
- moeseg, moesau a chredoau
- yr amgylchedd bwyta/amser prydau bwyd
- esgeulustod a cham-drin
- diwylliant a chrefydd
- dewisiadau ac arferion unigol y plentyn
- mentrau bwyd cymunedol.

Uned 003 Ymarfer Proffesiynol fel Gweithiwr Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant

Lefel:	Lefel 2
ODA:	50
Nod:	Meithrin dealltwriaeth y dysgwyr o rôl, cyfrifoldebau, atebolrwyddau a safonau proffesiynol gweithiwr gofal plant blynyddoedd cynnar, gan gynnwys gweithio mewn partneriaeth ag eraill ac fel rhan o dîm.
Trosolwg o'r uned:	Bydd yr uned hon yn sicrhau bod dysgwyr yn deall eu rôl a'u cyfrifoldebau gan gynnwys dyletswydd gofal, atebolrwyddau a safonau ymddygiad proffesiynol. Bydd y dysgwyr yn deall codau ymarfer, proffesiynoldeb, polisiau a gweithdrefnau gan gynnwys cyfrinachedd, cyfyngiadau eu rôl a'u cyfrifoldebau a phryd i geisio cefnogaeth ychwanegol i ddelio â sefyllfaoedd y tu hwnt i'w rôl neu achosion o wrthdaro a chyfyng gyngor. Meithrin gwybodaeth am weithio mewn partneriaeth, pwysigrwydd gweithio'n effeithiol mewn tîm ac yn amlasiantaethol, a ffyrdd o wneud hynny. Bydd y dysgwyr yn gwybod sut i drin, storio a chofnodi gwybodaeth â llaw ac yn electronig gan ddilyn deddfwriaeth a chodau ymddygiad. Bydd y dysgwyr yn deall pwysigrwydd datblygiad proffesiynol parhaus a myfyrio er mwyn gwella ymarfer gan gynnwys defnyddio adborth, rôl goruchwyllo ac arfarnu, ffyrdd o feithrin gwybodaeth a sgiliau gan gynnwys llythrennedd, rhifedd, cymhwysedd digidol a'r Gymraeg.
Math o asesiad:	Asesiad mewnol a phrawf dewis lluosog.

Deilliant dysgu

Bydd y dysgwr yn:

1. Deall rôl, cyfrifoldebau ac atebolrwyddau gweithiwr y blynyddoedd cynnar a gofal plant.

Meini prawf asesu

Bydd y dysgwr yn cael ei asesu ar:

- 1.1 cyfrifoldebau ac atebolrwyddau proffesiynol yng nghyd-destun fframweithiau deddfwriaethol perthnasol, safonau, **Codau Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol**
- 1.2 cwmpas a phwrpas y sector blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae
- 1.3 pwrpas **disgrifiadau swydd** a manylebau person ar gyfer diffinio disgwyliaidau a chyfyngiadau rolau a chyfrifoldebau
- 1.4 pwysigrwydd cydnabod cyfyngiadau rolau a chyfrifoldebau a chadw atyn nhw

- 1.5 sut a phryd i geisio cefnogaeth ychwanegol mewn sefyllfaoedd y tu hwnt i'r rôl, cyfrifoldebau, lefel o brofiad ac arbenigedd neu'n ansicr ynghylch sut i fwrw ymlaen mewn perthynas â mater gwaith
- 1.6 pwrpasau **polisiâu a gweithdrefnau** ar gyfer ymarfer y blynyddoedd cynnar a gofal plant
- 1.7 sut i ddysgu am bolisiâu a gweithdrefnau a'u dilyn
- 1.8 pam ei bod yn bwysig rhoi gwybod am ymarferion anniogel neu sy'n mynd yn groes i Godau Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol, safonau neu bolisiâu a gweithdrefnau
- 1.9 beth yw ystyr dyletswydd gofal a pham ei bod yn bwysig bod yn agored ac yn onest wrth ymarfer o ddydd i ddydd
- 1.10 gwrthdaro a chyfyng gyngor a fyddai'n gallu codi rhwng dyletswydd gofal a hawliau plant a'u teuluoedd/gofalwyr
- 1.11 atebolrwydd am ansawdd ei ymarfer ei hun
- 1.12 pwysigrwydd myfyrio a sut i ddefnyddio hyn i wella ymarfer
- 1.13 beth yw ystyr y term 'cyfrinachedd'
- 1.14 sut mae gweithiwr y blynyddoedd cynnar a gofal plant yn gallu cadw cyfrinachedd
- 1.15 amgylchiadau pan fo'n rhaid trosglwyddo gwybodaeth gyfrinachol ac i bwy.

Deilliant dysgu

Bydd y dysgwr yn:

2. Gwybod sut i feithrin a chynnal partneriaethau gwaith effeithiol ag eraill ym meysydd y blynyddoedd cynnar a gofal plant.

Meini prawf asesu

Bydd y dysgwr yn cael ei asesu ar:

- 2.1 egwyddorion gweithio mewn partneriaeth ag **eraill**
- 2.2 amrywiaeth a rolau gweithwyr a gweithwyr proffesiynol eraill ym meysydd y blynyddoedd cynnar a gofal plant
- 2.3 pwysigrwydd gwaith amlasiantaethol
- 2.4 pwysigrwydd meithrin perthnasoedd effeithiol wrth weithio gyda gweithwyr a gweithwyr proffesiynol eraill, gofalwyr a theuluoedd yn ogystal â'r plentyn
- 2.5 sut i weithio mewn ffyrdd sy'n meithrin ymddiriedaeth
- 2.6 pwysigrwydd parchu amrywiaeth a chydabod gwahaniaethau diwylliannol, crefyddol ac ethnig wrth weithio mewn partneriaeth.

Deilliant dysgu

Bydd y dysgwr yn:

3. Gwybod sut mae gwaith tîm effeithiol yn cefnogi ymarfer da ym meysydd y blynyddoedd cynnar a gofal plant, chwarae ac iechyd a gofal cymdeithasol (mae elfennau cyfarfodydd tîm yn cyfeirio at y rheini sy'n gweithio mewn tîm ac ni fyddai'n cynnwys y rheini sy'n gweithio ar eu pen eu hunain, e.e. gwarchodwyr plant).

Meini prawf asesu

Bydd y dysgwr yn cael ei asesu ar:

- 3.1 mathau o weithio mewn tîm a sut mae timau'n gallu bod yn wahanol o ran strwythur, pwrpas a chyfansoddiad
- 3.2 yr egwyddorion craidd sy'n sail i waith tîm effeithiol
- 3.3 ffyrdd mae gwaith tîm effeithiol yn cyfrannu at les plant, eu teuluoedd/gofalwyr.

Deilliant dysgu

Bydd y dysgwr yn:

4. Gwybod sut i ymdrin â gwybodaeth blynyddoedd cynnar a gofal plant.

Meini prawf asesu

Bydd y dysgwr yn cael ei asesu ar:

- 4.1 beth yw ystyr y term 'trin gwybodaeth'
- 4.2 beth yw ystyr y term 'diogelu data'
- 4.3 deddfwriaeth a'r Codau Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol sy'n ymwneud â thrin gwybodaeth gan gynnwys: storio, cofnodi, cyfrinachedd a rhannu
- 4.4 'systemau diogel ar gyfer cofnodi a storio gwybodaeth'
- 4.5 pam ei bod yn bwysig cael systemau diogel ar gyfer cofnodi a storio gwybodaeth blynyddoedd cynnar a gofal plant
- 4.6 nodweddion systemau storio gwybodaeth electronig ac â llaw sy'n helpu i sicrhau diogelwch gwybodaeth
- 4.7 pa wybodaeth y mae angen ei chofnodi, rhoi gwybod amdani a'i storio
- 4.8 ffyrdd o gofnodi gwybodaeth ysgrifenedig â chywirdeb, eglurder, perthnasedd a lefel briodol o fanylder yn amserol
- 4.9 y gwahaniaeth rhwng ffaith, barn a dyfarniad a pham mae deall hyn yn bwysig wrth gofnodi a rhoi gwybod am wybodaeth am blant a'u teuluoedd/gofalwyr
- 4.10 pwysigrwydd rhannu gwybodaeth wedi'i chofnodi gydag unigolion a gwybod pryd a pham na fyddai hyn yn gallu digwydd.

Deilliant dysgu

Bydd y dysgwr yn:

5. Deall pwysigrwydd cynnal proffesiwn gweithiwr y blynyddoedd cynnar a gofal plant.

Meini prawf asesu

Bydd y dysgwr yn cael ei asesu ar:

- 5.1 modelau rôl cadarnhaol yn y blynyddoedd cynnar a gofal plant
- 5.2 pam ei bod yn bwysig peidio ag ymddwyn mewn ffordd, yn y gwaith neu'r tu allan i'r **gweithle/lleoliad**, a fyddai'n cwestiynu'r addasrwydd i weithio yn y proffesiwn blynyddoedd cynnar a gofal plant
- 5.3 y berthynas rhwng y defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol ac ymddygiad personol
- 5.4 beth sy'n gyfystyr â'r camddefnydd o'r cyfryngau cymdeithasol a goblygiadau hyn ar ymarfer
- 5.5 pam ei bod yn bwysig peidio â meithrin perthnasoedd amhriodol â phlant, eu teuluoedd/gofalwyr, cydweithwyr ac eraill
- 5.6 pam ei bod yn bwysig cydnabod a defnyddio'n sensitif y pŵer sy'n gysylltiedig â'ch rôl wrth weithio gyda phlant, eu teuluoedd/gofalwyr a pheidio ag ymddwyn mewn unrhyw ffordd sy'n camddefnyddio'r pŵer hwn.

Deilliant dysgu

Bydd y dysgwr yn:

6. Gwybod sut mae datblygiad proffesiynol parhaus yn cyfrannu at ymarfer proffesiynol.
* Mae elfennau goruchwylio ac arfarnu yn cyfeirio at y rheini sy'n gweithio mewn rôl gyflogedig ac ni fyddai'n cynnwys y rhai sy'n hunangyflogedig, e.e. gwarchodwyr plant.

Meini prawf asesu

Bydd y dysgwr yn cael ei asesu ar:

- 6.1 beth yw ystyr y term 'datblygiad proffesiynol parhaus'
- 6.2 gofynion deddfwriaethol, safonau a **Chodau Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol** sy'n ymwneud â datblygiad proffesiynol parhaus
- 6.3 Safonau'r Gymraeg
- 6.4 sut i werthuso eich gwybodaeth, dealltwriaeth ac ymarfer eich hun yn erbyn safonau a gwybodaeth berthnasol
- 6.5 cyfrifoldebau cyflogwyr a gweithwyr am ddatblygiad proffesiynol parhaus
- 6.6 y cyfleoedd dysgu sydd ar gael i gyflogwyr a gweithwyr a sut mae'n bosibl eu defnyddio i wella gwybodaeth ac ymarfer
- 6.7 sut i gael gafael ar wybodaeth a'i defnyddio er mwyn cefnogi gwybodaeth ac ymarfer gorau sy'n berthnasol i'r rôl
- 6.8 sut i gymhwyso dysgu i ymarfer a throsglwyddo gwybodaeth a sgiliau i sefyllfaoedd newydd
- 6.9 pam ei bod yn bwysig ceisio adborth ar ymarfer gan blant, eu teuluoedd/gofalwyr, cydweithwyr ac eraill, a dysgu ohono
- 6.10 egwyddorion ymarfer myfyriol a pham mae hyn yn bwysig
- 6.11 pwrpas goruchwylio ac arfarnu

- 6.12 rôl a chyfrifoldebau cyflogwyr a gweithwyr am oruchwylio ac arfarnu
- 6.13 y defnydd o **ymarfer myfyriol** wrth oruchwylio ac arfarnu
- 6.14 pwysigrwydd goruchwylio effeithiol, ymarfer myfyriol a chyfleoedd dysgu perthnasol ar lesiant plant, eu teuluoedd/gofalwyr
- 6.15 meysydd gwaith lle mae angen **sgiliau** llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol er mwyn cefnogi ymarfer proffesiynol
- 6.16 ffyrdd o ddatblygu eich sgiliau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol eich hun
- 6.17 ffyrdd o ddatblygu eich sgiliau Cymraeg eich hun er mwyn cefnogi dewis iaith plant mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar a gofal plant a'u teuluoedd/gofalwyr.

Uned 003: Canllawiau Cyflwyno

Polisiâu a gweithdrefnau: Ffyrdd o weithio a gytunwyd yn ffurfiol sy'n rhwymol ac yn gymwys mewn llawer o leoliadau. Lle nad oes polisiâu a gweithdrefnau, mae'r term yn cynnwys ffyrdd eraill o weithio a gytunwyd.

Codau Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol: Dylai gynnwys Cod Ymddygiad GIG Cymru ar gyfer Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd yng Nghymru, a'r Cod Ymarfer ar gyfer Cyflogwyr GIG Cymru ac unrhyw ganllawiau ymarfer ychwanegol a gyhoeddir gan GIG Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru neu Lywodraeth Cymru.

Disgrifiad Swydd: Mae'n bosibl nad oes gan rai rolau gofal plant a blynyddoedd cynnar ddisgrifiadau swyddi ffurfiol; fodd bynnag, bydd ganddyn nhw gontract neu gytundeb sy'n nodi sut y disgwylir iddyn nhw gyflawni eu rôl.

Eraill: Byddai'n cynnwys cydweithwyr, gweithwyr neu weithwyr proffesiynol eraill a theuluoedd/gofalwyr y daw unigolion i gysylltiad â nhw wrth ofalu am blentyn a'i gefnogi.

Gweithle/Ileoliad: Y lleoliad lle mae gofal, chwarae, dysgu a datblygiad yn cael ei ddarparu e.e. meithrinfa ddydd, cylch meithrin, grŵp chwarae.

Ymarfer Myfyriol: Gallu myfyrio ar weithredoedd a dysgu ohonyn nhw er mwyn gwella ymarfer.

Cymhwysedd Digidol: Gall hefyd gael ei alw'n llythrennedd digidol neu'n dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

Uned 004 Diogelu Plant

Lefel:	Lefel 2
ODA:	40
Nod:	Meithrin dealltwriaeth y dysgwyr o bwrrpas deddfwriaeth, polisiau cenedlaethol, a chodau ymddygiad mewn perthynas â diogelu plant.
Trosolwg o'r uned:	Bydd y dysgwyr yn deall y termau 'diogelu' ac 'e-ddiogelwch', a chategorïau, arwyddion a symptomau o gam-drin ac esgeulustod. Byddan nhw'n meithrin gwybodaeth am ddeddfwriaeth, polisiau cenedlaethol a chodau ymddygiad mewn perthynas â diogelu, rolau gwahanol asiantaethau a gweithdrefnau cofnodi a rhoi gwybod lle mae arwyddion o gam-drin i'w gweld. Bydd y dysgwr yn gwybod ac yn deall ei gyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu gan gynnwys rôl eiriolaeth, perthnasoedd priodol, ymarferion plant-ganolog, amddiffyn hawliau plant a'u teuluoedd/gofalwyr, a sicrhau bod plant a theuluoedd/gofalwyr yn ymwybodol o ffyrdd o gadw'n ddiogel. Bydd y dysgwr yn gwybod am ffyrdd o ymateb a gweithdrefnau cofnodi a rhoi gwybod i'w dilyn gan gynnwys dealltwriaeth o 'chwythu'r chwiban' a ffiniau cyfrinachedd. Bydd y dysgwyr yn gwybod pa ffactorau, sefyllfaoedd a gweithredoedd sy'n gallu arwain at niwed, cam-drin neu esgeulustod, neu gyfrannu atyn nhw, gan gynnwys profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, cam-drin domestig, bwlio a meithrin perthynas amhriodol. Byddan nhw'n meithrin gwybodaeth am adolygiadau ac adroddiadau ar fethiannau difrifol i amddiffyn unigolion rhag niwed, cam-drin neu esgeulustod.
Math o asesiad:	Asesiad mewnol a phrawf dewis lluosog.

Deilliant dysgu

Bydd y dysgwr yn:

1. Deall pwrpas deddfwriaeth, polisiau cenedlaethol a **Chodau Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol** o ran diogelu plant.

Meini prawf asesu

Bydd y dysgwr yn cael ei asesu ar:

- 1.1 beth yw ystyr y term 'diogelu'
- 1.2 beth yw ystyr y term 'e-ddiogelwch'
- 1.3 y prif gategorïau o gam-drin ac esgeulustod
- 1.4 arwyddion a symptomau cyffredin sy'n gysylltiedig â cham-drin, niwed ac esgeulustod
- 1.5 **deddfwriaeth, polisiau cenedlaethol a Chodau Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol** sy'n ymwneud â diogelu **unigolion** – oedolion a phlant a beth mae'r rhain yn ei olygu'n ymarferol
- 1.6 sut mae fframweithiau deddfwriaethol yn sail i'r hawliau sydd gan blant i gael eu diogelu rhag niwed, cam-drin ac esgeulustod

- 1.7 rolau gwahanol asiantaethau a phobl sy'n ymwneud â diogelu lles plant yng nghydestun y lleoliad
- 1.8 sut y dylai pryderon neu ddigwyddiadau gael eu cofnodi a sut y dylid rhoi gwybod amdany'n nhw.

Deilliant dysgu

Bydd y dysgwr yn:

2. Deall sut i weithio mewn ffyrdd sy'n diogelu plant rhag niwed, cam-drin ac esgeulustod.

Meini prawf asesu

Bydd y dysgwr yn cael ei asesu ar:

- 2.1 rolau a chyfrifoldebau **gweithwyr y blynyddoedd cynnar a gofal plant** ym maes diogelu
- 2.2 rôl **eirioli** o ran diogelu
- 2.3 pwysigrwydd meithrin perthnasoedd sy'n cefnogi ymddiriedaeth a chysylltiad â phlant, eu teuluoedd/gofalwyr
- 2.4 pwysigrwydd ymarfer plentyn ganolog ym maes diogelu
- 2.5 pwysigrwydd gweithio mewn ffyrdd sy'n cynnal hawliau plant, eu teuluoedd/gofalwyr
- 2.6 sut i sicrhau bod plant, eu teuluoedd/gofalwyr yn gallu mynegi ofnau, gorbryderon, teimladau a phryderon heb fod ofn cael eu gwawdio na chael eu gwrthod, profi dial na pheidio â chael eu credu
- 2.7 sut i sicrhau bod plant, eu teuluoedd/gofalwyr yn ymwybodol o sut i gadw eu hunain yn ddiogel
- 2.8 sut i sicrhau bod plant, eu teuluoedd/gofalwyr yn ymwybodol o'r risgiau sy'n gysylltiedig â defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, y we a ffonau symudol
- 2.9 sut i weithio mewn ffyrdd sy'n cadw'r **gweithiwr** Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant a'r plentyn yn ddiogel.

Deilliant dysgu

Bydd y dysgwr yn:

3. Deall y ffactorau, y sefyllfaoedd a'r gweithredoedd sy'n gallu arwain at niwed, cam-drin neu esgeulustod, neu gyfrannu at hynny.

Meini prawf asesu

Bydd y dysgwr yn cael ei asesu ar:

- 3.1 pam mae rhai plant, eu teuluoedd/gofalwyr yn debygol o wynebu mwy o risg o niwed, cam-drin neu esgeulustod
- 3.2 sut mae profiadau andwyol mewn plentynod yn ffactorau sy'n gallu arwain at niwed, cam-drin neu esgeulustod plant, neu gyfrannu at hynny
- 3.3 pam nad yw oedolion, plant, teulu, ffrindiau, gweithwyr a gwirfoddolwyr yn datgelu camdriniaeth efallai
- 3.4 **gweithredoedd, ymddygiadau neu sefyllfaoedd** a fyddai'n gallu arwain at gam-drin neu niwed, neu gynyddu'r risg o hynny
- 3.5 arwyddion o gam-drin domestig
- 3.6 mathau gwahanol o fwlio a'i effaith bosibl
- 3.7 nodweddion cyffredin ymddygiad tramgwyddwyr a meithrin perthynas amhriodol

- 3.8 gwerth dysgu o adolygiadau ac adroddiadau ar fethiannau difrifol i ddiogelu unigolion rhag niwed, cam-drin neu esgeulustod.

Deilliant dysgu

Bydd y dysgwr yn:

4. Deall sut i ymateb, cofnodi a rhoi gwybod am bryderon, datgeliadau neu honiadau sy'n ymwneud â diogelu.

Meini prawf asesu

Bydd y dysgwr yn cael ei asesu ar:

- 4.1 y dulliau sy'n cael eu defnyddio i ymateb os bydd niwed, cam-drin neu esgeulustod yn cael ei amau, ei ddatgelu neu ei honni
- 4.2 y ffiniau cyfrinachedd mewn perthynas â diogelu a gwybodaeth y mae'n rhaid ei rhannu
- 4.3 camau i'w cymryd os bydd niwed, cam-drin neu esgeulustod yn cael ei amau, ei ddatgelu neu ei honni
- 4.4 camau i'w hosgoi os bydd niwed, cam-drin neu esgeulustod yn cael ei amau, ei ddatgelu neu ei honni, gan ystyried unrhyw ymchwiliadau yn y dyfodol a fyddai'n gallu digwydd
- 4.5 beth yw ystyr y term 'chwythu'r chwiban'
- 4.6 pwysigrwydd rhoi gwybod am unrhyw bryderon ynghylch niwed, cam-drin neu esgeulustod posibl a'r ddyletswydd sydd gan bawb i wneud hyn
- 4.7 beth y dylid rhoi gwybod amdano a'i gofnodi, pryd y dylai hyn ddigwydd a sut mae'r wybodaeth hon yn cael ei storio
- 4.8 rhwystrau posibl i godi pryderon neu roi gwybod amdany'n nhw a sut mae angen mynd i'r afael â'r rhain
- 4.9 sut i gofnodi gwybodaeth ysgrifenedig â chywirdeb, eglurder, perthnasedd a lefel briodol o fanylder
- 4.10 y gwahaniaeth rhwng ffaith, barn a dyfarniad a pham mae deall hyn yn bwysig wrth gofnodi a rhoi gwybod am wybodaeth
- 4.11 y camau i'w cymryd pan fydd pryderon parhaus am niwed, cam-drin neu esgeulustod neu lle nad ymdriniwyd â phryderon ar ôl rhoi gwybod amdany'n nhw.

Uned 004: Canllawiau Cyflwyno

Deddfwriaeth, polisïau cenedlaethol a Chodau Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol sy'n ymwneud â diogelu unigolion:

- Plant – Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 1989
- Plant – Deddf Plant 1989 a 2004
- Plant – Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019
- Plant – Gweithio gyda'n Gilydd dan Ddeddf Plant 2004
- Cyffredinol – Deddf Diogelu Data 1998
- Cyffredinol – Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2018 (GDPR)
- Cyffredinol – Deddf Hawliau Dynol 1998
- Cyffredinol – diwygiad i Ddeddf Iechyd Meddwl 2007
- Cyffredinol – Deddf Galluedd Meddyliol 2005
- Cyffredinol – Deddf Cydraddoldeb 2010
- Cyffredinol – Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006
- Cyffredinol – Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Cyffredinol – Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015
- Cyffredinol – Strategaeth Atal 2015.

(Polisïau a gweithdrefnau: Ffyrdd o weithio a gytunwyd yn ffurfiol sy'n rhwymol ac yn gymwys mewn llawer o leoliadau. Lle nad oes polisïau a gweithdrefnau, mae'r term yn cynnwys ffyrdd eraill o weithio a gytunwyd.)

Unigolyn: Yn yr achos hwn y gweithiwr a/neu'r plant rydych yn eu cefnogi neu'n gofalu amdany'n nhw yn eich gwaith fyddai hwn.

Gweithwyr Blynnyddoedd Cynnar a Gofal Plant: Pobl sy'n gweithio mewn lleoliadau Blynnyddoedd Cynnar a Gofal Plant a'r gweithlu blynnyddoedd cynnar sy'n gweithio mewn sectorau gwahanol (e.e. iechyd, addysg) gan gynnwys y rhai sy'n cefnogi'r teulu fel cynorthwyyr ymwelwyr iechyd neu weithwyr teulu Dechrau'n Deg.

Gweithiwr: Sef y sawl sy'n darparu gwasanaethau gofal, dysgu a datblygu i blant.

Eiriolaeth: Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn diffinio "Gwasanaethau eirioli" fel: [g]wasanaethau sy'n darparu cymorth (ar ffurf cynrychiolaeth neu fel arall) i bersonau at bwrpasau sy'n ymwneud â'u gofal a chymorth.

Mae eiriolaeth yn cefnogi ac yn galluogi pobl sy'n ei chael yn anodd cynrychioli eu buddiannau i arfer eu hawliau, mynegi eu barn, archwilio a gwneud dewisiadau hyddysg a gallai gynnwys:

- hunaneiriolaeth
- eiriolaeth anffurfiol
- cydeiriolaeth
- eiriolaeth cymheiriaid
- eiriolaeth dinasyddion
- eiriolaeth gwirfoddolwyr annibynnol
- eiriolaeth ffurfiol
- eiriolaeth broffesiynol annibynnol.

Dylai'r **Codau Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol** gynnwys y Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gofal Cymdeithasol; Cod Ymddygiad GIG Cymru ar gyfer Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd yng Nghymru, a'r Cod Ymarfer ar gyfer Cyflogwyr GIG Cymru ac unrhyw ganllawiau ymarfer ychwanegol a gyhoeddir gan GIG Cymru neu reoleiddwyr iechyd neu ofal cymdeithasol yng Nghymru, e.e. Canllawiau Ymarfer ar gyfer Gweithwyr Gofal Preswyl Plant sydd wedi Cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru.

Gallai **gweithredoedd, ymddygiadau neu sefyllfaoedd sy'n cynyddu'r risg o niwed neu gam-drin** gynnwys:

- profiadau andwyol mewn plentyndod
- ceisio lloches
- labelu'n droseddwr
- mathau gwahanol o fwlio
- cam-drin domestig
- anffurfio organau cenhedlu benywod
- priodasau dan orfod
- plant sy'n derbyn gofal
- trosedd gasineb
- digartrefedd
- masnachu mewn pobl/caethwasiaeth fodern
- anghenion dysgu ychwanegol
- salwch meddwl
- tlodi
- radicaleiddio
- hunan-esgeulustod
- cam-fanteisio'n rhywiol
- camddefnyddio sylweddau.

Uned 005 Iechyd a Diogelwch mewn Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant

Lefel:	Lefel 2
ODA:	30
Nod:	Bydd dysgwyr yn gwybod sut i fodloni gofynion deddfwriaethol iechyd a diogelwch mewn lleoliadau Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant.
Trosolwg o'r uned:	Bydd y dysgwyr yn deall sut mae deddfwriaeth iechyd a diogelwch yn effeithio ar ymarfer bob dydd, eu rôl a'u cyfrifoldebau eu hunain a rôl a chyfrifoldebau cyflogwyr. Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o ddamweiniau, argyfyngau a pheryglon a fyddai'n gallu digwydd mewn gweithle/lleoliad a sut mae asesiadau risg yn cael eu defnyddio i gefnogi iechyd a diogelwch. Bydd y dysgwyr yn deall cyfrifoldebau mewn perthynas â chyflawni, cofnodi a dilyn asesiadau risg, a phwysigrwydd rhoi gwybod am bryderon a digwyddiadau sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch a'u cofnodi. Byddan nhw'n meithrin gwybodaeth am ddeddfwriaeth sy'n gysylltiedig â diogelwch tân, symud a chario, rheoli haint, diogelwch bwyd, gwaredu gwastraff a diogelwch ynghyd â dealltwriaeth o ymarferion da a gweithdrefnau perthnasol a diogel. Bydd y dysgwyr yn gwybod am arwyddion o straen, amgylchiadau a fyddai'n gallu achosi straen a chamau mae'n bosibl eu cymryd i leihau a rheoli straen, gan gynnwys y gefnogaeth sydd ar gael.
Math o asesiad:	Prawf dewis lluosog.

Deilliant dysgu

Bydd y dysgwr yn:

1. Gwybod sut i fodloni gofynion deddfwriaethol o ran iechyd a diogelwch yn y gweithle/lleoliad.

Meini prawf asesu

Bydd y dysgwr yn dysgu am:

- 1.1 **deddfwriaeth allweddol** sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch yn y **gweithle/lleoliad** a beth mae'n ei olygu yn ymarferol
- 1.2 cyfrifoldebau cyflogwyr, y gweithiwr ac eraill am iechyd a diogelwch yn y gwaith
- 1.3 pwysigrwydd gweithio o fewn terfynau eich rôl a'ch cyfrifoldebau eich hun
- 1.4 pwysigrwydd codi pryderon am ymarferion neu amodau gwaith sy'n annigol neu'n achosi risg.

Deilliant dysgu

Bydd y dysgwr yn:

2. Gwybod sut mae asesiadau risg yn cael eu defnyddio i gefnogi iechyd a diogelwch yn y lleoliad gwaith.

Meini prawf asesu

Bydd y dysgwr yn cael ei asesu ar:

- 2.1 'asesiad risg' mewn perthynas ag iechyd a diogelwch
- 2.2 **deddfwriaeth allweddol** sy'n ymwneud â **damweiniau, digwyddiadau ac argyfyngau**
- 2.3 y mathau o ddamweiniau, digwyddiadau, argyfyngau a pheryglon iechyd a diogelwch a fyddai'n gallu digwydd yn y **gweithle/lleoliad**
- 2.4 pwysigrwydd asesu risg wrth nodi peryglon sy'n ymwneud â'r lleoliad gwaith neu weithgareddau yn y gwaith
- 2.5 cyfrifoldebau am gyflawni, cofnodi a dilyn asesiadau risg ar gyfer gweithgareddau gwaith
- 2.6 y gwahaniaeth rhwng asesiadau risg i'w cofnodi'n ffurfiol a'r rhai i'w gwneud fel mater o drefn fel rhan o ymarfer gwaith, e.e. archwilio ystafell am beryglon baglu wrth fynd i mewn iddi
- 2.7 pwysigrwydd rhoi gwybod am bryderon neu ddigwyddiadau sydd wedi digwydd neu sy'n debygol o ddigwydd.

Deilliant dysgu

Bydd y dysgwr yn:

3. Gwybod sut i hyrwyddo diogelwch tân mewn lleoliadau gwaith.

Meini prawf asesu

Bydd y dysgwr yn cael ei asesu ar:

- 3.1 **deddfwriaeth allweddol** sy'n ymwneud â diogelwch tân
- 3.2 cyfrifoldebau cyflogwr, y gweithiwr ac eraill am ddiogelwch tân yn y lleoliad gwaith
- 3.3 ymarfer sy'n atal tanau rhag dechrau a lledaenu
- 3.4 pwysigrwydd gwybod am weithdrefnau gwacáu os oes tân
- 3.5 pwysigrwydd cadw allanfeydd yn glir drwy'r amser.

Deilliant dysgu

Bydd y dysgwr yn:

4. Gwybod beth yw egwyddorion 'symud a chario' a 'symud a lleoli'.

Meini prawf asesu

Bydd y dysgwr yn cael ei asesu ar:

- 4.1 beth yw ystyr y termau symud a chario a symud a lleoli
- 4.2 **deddfwriaeth allweddol** sy'n ymwneud â symud a chario a beth mae'n ei olygu yn ymarferol
- 4.3 egwyddorion a thechnegau symud a chario
- 4.4 goblygiadau ymarfer gwael wrth symud a chario.

Deilliant dysgu

Bydd y dysgwr yn:

5. Gwybod y prif lwybrau at haint a sut i atal heintiau rhag lledaenu yn y gweithle/lleoliad.

Meini prawf asesu

Bydd y dysgwr yn cael ei asesu ar:

- 5.1 arwyddion afiechydon a heintiau mewn plentyndod (gan gynnwys **Meningitis a Sepsis**) a fyddai'n gallu cael eu hachosi gan **facteria, feirysau, ffyngau a pharasitiaid** ac effaith bosibl y rhain
- 5.2 sut mae heintiau yn cael eu trosglwyddo
- 5.3 ymarfer gwael a fyddai'n gallu arwain at ledaenu haint
- 5.4 ffactorau a fydd yn ei gwneud yn fwy tebygol y bydd heintiau'n digwydd
- 5.5 **deddfwriaeth allweddol** a safonau sy'n ymwneud ag atal heintiau a'u rheoli
- 5.6 rôl a chyfrifoldebau cyflogwyr, gweithwyr ac eraill (gan gynnwys partneriaid iechyd) o ran atal a rheoli haint
- 5.7 sut i gadw amgylchedd glân er mwyn atal haint rhag lledaenu
- 5.8 pwysigrwydd hylendid personol da er mwyn atal haint rhag lledaenu
- 5.9 y **dechneg golchi dwylo** sydd wedi'i chydabod er mwyn atal haint rhag lledaenu
- 5.10 y defnydd o gyfarpar diogelu personol er mwyn atal haint rhag lledaenu
- 5.11 gweithdrefnau i gofnodi a rhoi gwybod am heintiau.

Deilliant dysgu

Bydd y dysgwr yn:

6. Gwybod sut i weithredu mesurau diogelwch bwyd.

Meini prawf asesu

Bydd y dysgwr yn cael ei asesu ar:

- 6.1 **deddfwriaeth allweddol** ar gyfer diogelwch bwyd
- 6.2 rôl a chyfrifoldebau cyflogwyr a gweithwyr ar gyfer diogelwch bwyd
- 6.3 pwysigrwydd gweithredu mesurau diogelwch bwyd
- 6.4 peryglon diogelwch bwyd sy'n gallu digwydd wrth baratoi, gweini, clirio a storio bwyd a diod
- 6.5 pam mae angen i arwynebau, offer a chyfarpar fod yn lân er mwyn paratoi bwyd
- 6.6 pryd y dylid defnyddio cyfarpar diogelu personol
- 6.7 sut i storio, paratoi a defnyddio bwyd a diod yn ddiogel
- 6.8 sut i waredu gwastraff bwyd yn ddiogel.

Deilliant dysgu

Bydd y dysgwr yn:

7. Gwybod sut i storio, defnyddio a gwaredu sylweddau peryglus yn ddiogel.

Meini prawf asesu

Bydd y dysgwr yn cael ei asesu ar:

- 7.1 beth yw ystyr y term 'sylweddau peryglus'
- 7.2 y mathau o sylweddau peryglus mae'n bosibl dod ar eu traws yn y gweithle/lleoliad
- 7.3 ymarfer diogel ar gyfer: storio, defnyddio a gwaredu sylweddau peryglus
- 7.4 beth yw ystyr y term '**Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd**' (COSHH) a sut i'w weithredu.

Deilliant dysgu

Bydd y dysgwr yn:

8. Gwybod sut i gadw'r lleoliad gweithle yn ddiogel.

Meini prawf asesu

Bydd y dysgwr yn cael ei asesu ar:

- 8.1 risgiau posibl i ddiogelwch yn lleoliad y gweithle
- 8.2 ymarfer diogel er mwyn sicrhau bod lleoliad y gweithle yn ddiogel gan gynnwys: gweithio ar eich pen eich hun, rhoi gwybod ble ydych, mynediad i'r gweithle/lleoliad, arwyddo plant i mewn ac allan
- 8.3 ymarfer diogel er mwyn sicrhau mai dim ond i unigolion a gytunwyd ymlaen llaw y bydd plant yn cael eu rhyddhau.

Deilliant dysgu

Bydd y dysgwr yn:

9. Gwybod sut i reoli straen.

Meini prawf asesu

Bydd y dysgwr yn cael ei asesu ar:

- 9.1 arwyddion a dangosyddion cyffredin straen
- 9.2 amgylchiadau posibl sy'n gallu sbarduno straen
- 9.3 ffyrdd o reoli straen
- 9.4 pwysigrwydd cydnabod straen a chymryd camau i'w leihau
- 9.5 o ble i gael cefnogaeth ychwanegol os yn profi straen.

Uned 005: Canllawiau Cyflwyno

Deddfwriaeth allweddol:

- Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974
- Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999
- Rheoliadau'r Gweithle (Iechyd, Diogelwch a Llesiant) 1992
- Rheoliadau Gweithrediadau Codi a Chario 1992
- Rheoliadau Darparu a Defnyddio Cyfarpar Gwaith 1998
- Rheoliadau Gweithrediadau Codi a Chyfarpar Codi 1998
- Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus 2013
- Rheoliadau Cyfarpar Diogelu Personol yn y Gwaith 1992
- Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) 2002
- Safonau ansawdd canllawiau NICE

Safonau a deddfwriaeth allweddol sy'n ymwneud ag atal heintiau a'u rheoli

- Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) Nod Ansawdd 61 Atal a Rheoli Heintiau Ebrill 2014
- Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) – *Clean Care is Safer Care: Five Moments for Hand Hygiene*
- Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) (2002)
- Rhagofalon Safonol Rheoli Heintiau (SICPS) Iechyd Cyhoeddus Cymru (2013)
- Gweithdrefn Rhif 6 rhaglen Heintiau Cysylltiedig â Gofal Iechyd Cymru – rheoli achosion o golli gwaed a hylifau'r corff (Llywodraeth Cymru 2009)
- Cod Gwisg GIG Cymru Gyfan, Rhydd i Arwain, Rhydd i Ofalu

³<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/page/95109>

Deddfwriaeth allweddol sy'n ymwneud â diogelwch tân gan gynnwys:

- Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974
- Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005
- Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) 1999 Gwastraff Peryglus
- Rheoliadau Darparu a Defnyddio Cyfarpar Gwaith 1998
- Rheoliadau (Diogelwch) Cyfarpar Trydanol 1994
- Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999
- Rheoliadau'r Gweithle (Iechyd, Diogelwch a Llesiant) 1992

Gweithle/lleoliad plentyn: Lleoliad fyddai hwn lle mae gofal, chwarae, dysgu a datblygiad yn cael eu darparu e.e. meithrinfa ddydd, cylch meithrin, grŵp chwarae.

Damweiniau: Rhywbeth sy'n digwydd yn annisgwyl ac yn anfwriadol, fel arfer gan arwain at niwed neu anaf e.e. plentyn yn syrthio.

Digwyddiad(au): Rhywbeth sy'n digwydd; digwyddiad untro neu reolaidd, e.e. rhiant heb gasglu ei blentyn o'r ysgol.

Argyfyngau: Sefyllfaoedd difrifol ac annisgwyl lle mae angen gweithredu ar unwaith, e.e. plentyn ar goll.

Bacteria, feirysau, ffyngau a pharasitiaid:

³ Gweler y wefan am wybodaeth am Atal a Rheoli Heintiau.

Afiechydion a heintiau cyffredin mewn plentynod sy'n cael eu hachosi gan y canlynol:

1. bacteria: gwenwyn bwyd, twbercwlosis, MRSA, dysentri, bronchitis, heintiau yn y glust, streptococws a thonsillitis
2. firysau: ffliw, annwyd, ffliw'r stumog, niwmonia
3. ffyngau: tarwden y traed, y darwden a heintiau burum
4. parasitiaid: llyngyr, malaria.

Sepsis: Bydd angen i'r dysgwyr ddeall y gall mathau o salwch fel y rhai uchod arwain at gyflyrau dirywiad aciwt fel sepsis.

Llid yr ymennydd: fel arfer, mae'n cael ei achosi gan haint bacteriol neu firol.

Mae llid yr ymennydd bacteriol yn fwy anghyffredin ond yn fwy difrifol na llid yr ymennydd firol.

Techneg golchi dwylo: Defnyddio canllawiau cenedlaethol a rhyngwladol cyfredol.

4 Gofynion canolfannau

Cymeradwyo Canolfannau a Chymwysterau

Er mwyn cynnig y cymhwyster hwn, bydd angen i ganolfannau gael cymeradwyaeth canolfannau a chymwysterau. Dim ond cymeradwyo'r cymhwyster y bydd angen i ganolfannau sydd eisoes wedi cofrestru â CBAC ei wneud.

Mae cymeradwyaeth fel canolfan yn seiliedig ar allu sefydliad i fodloni'r meini prawf ar gyfer cymeradwyo canolfannau, fel y nodir yn y Llawlyfr Gweinyddu a'r canllawiau a'r Ffurflenni Cymeradwyo Canolfannau a Chymwysterau.

Staff canolfannau

Aseswyr mewnol

Rhaid i'r aseswyr mewnol fod yn wybodus yn alwedigaethol. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'r aseswr feddu ar y wybodaeth a'r ddealltwriaeth berthnasol, sy'n cyrraedd yr un lefel o leiaf â chynnwys yr uned mae'n ei hasesu. Rhaid i'r unigolyn hefyd feddu ar ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o bwysigrwydd y Gymraeg, a'i diwylliant, polisi a chyd-destun.

Yn ogystal, rhaid i'r unigolyn feddu ar y canlynol neu fod yn gweithio tuag ato:

- y Lefel 3 Dyfarniad mewn Asesu Cyflawniad Galwedigaethol Gysylltiedig neu hen gymwysterau cyfatebol; neu
- cymhwyster addysgu cydnabyddedig⁴; a
- cynnal gwybodaeth alwedigaethol yr unigolyn drwy ddysgu a datblygiad proffesiynol parhaus clir a pherthnasol, sydd ar yr un lefel o leiaf â lefel yr unedau mae'n eu hasesu.

Lle y bo aseswr yn gweithio tuag at gymwysterau aseswr, rhaid bod trefniant cydlofnodi ar waith gan aseswr cymwysedig o'r un sector neu sector cysylltiedig.

Swyddogion sicrhau ansawdd mewnol (SSAM)

Mae sicrhau ansawdd mewnol yn allweddol i sicrhau bod y gwaith o asesu tystiolaeth ar gyfer unedau yn gyson ac o'r safon briodol. Rhaid i'r rheini sy'n cyflawni rôl sicrhau ansawdd mewnol fod yn alwedigaethol wybodus a meddu ar y sgiliau sydd eu hangen i wneud penderfyniadau sicrhau ansawdd.

Rhaid iddyn nhw feddu ar ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o bwysigrwydd y Gymraeg, a'i diwylliant, polisi a chyd-destun.

Ar gyfer y cymhwyster hwn, dylai Swyddogion Sicrhau Ansawdd Mewnol fod:

- yn meddu ar y cymwysterau Sicrhau Ansawdd cyfredol, neu fod yn gweithio tuag at eu hennill, e.e.
 - Lefel 4 Dyfarniad ar gyfer Sicrhau Ansawdd Mewnol Prosesau ac Arferion Asesu neu
 - Lefel 4 Tystysgrif mewn Arwain Gwaith Sicrhau Ansawdd Prosesau ac Ymarfer Asesu yn Fewnol neu
 - Feddu ar uned D34 neu Ddyfarniad Gwirwyr V1.

⁴ Mae'r Consortiwm hefyd yn derbyn cymwysterau asesu ac addysgu ychwanegol a achredir yn genedlaethol. Mae rhestr lawn o'r rhain ar gael yn y Llawlyfr Gweinyddu Mae ar gael o wefan y Consortiwm yn www.dysguiechydagofal.cymru.

Sylwer, lle y bo SSAM yn gweithio tuag at gymwysterau SSAM, rhaid bod trefniant cydlofnodi ar waith gan swyddog sicrhau ansawdd mewnol cymwysedig o'r un sector neu sector cysylltiedig.

neu

fod â chymhwyster addysgu cydnabyddedig a chofnod o brofiad yn ymgymryd â gwaith sicrhau ansawdd yn ymwneud â chymwysterau seiliedig ar wybodaeth

Datblygiad proffesiynol parhaus

Disgwylir i ganolfannau gynorthwyo eu staff i sicrhau bod eu gwybodaeth yn parhau'n gyfredol yn y maes galwedigaethol ac o ran ymarfer gorau wrth gyflwyno, mentora, hyfforddi, asesu a sicrhau ansawdd a'i bod yn ystyried unrhyw ddatblygiadau cenedlaethol neu ddeddfwriaethol.

5 Cyflwyno'r cymhwyster, ei asesu a sicrhau ei ansawdd

Cofrestru dysgwyr

Bydd y canolfannau'n dilyn dulliau cofrestru safonol CBAC i gofrestru eu dysgwyr am y cymhwyster hwn. Mae'r dulliau cofrestru i'w gweld yn rhifyn cyfredol dogfen CBAC Dulliau Cofrestru a Gwybodaeth am y Codau.

Gofynion cofrestru dysgwyr

Nid oes unrhyw ofynion cofrestru ar gyfer y cymhwyster hwn. Fodd bynnag, rhaid i ganolfannau sicrhau bod gan ddysgwyr y potensial i ennill y cymhwyster yn llwyddiannus, a'u bod yn cael y cyfle i wneud hynny.

Cyfyngiadau o ran oedran

Mae'r cymhwyster hwn wedi'i gymeradwyo ar gyfer dysgwyr 16 oed a throsodd. Ni all y Consortiwm dderbyn unrhyw gofrestrriad ar gyfer dysgwyr o dan 16 oed.

Asesu cychwynnol a sefydlu

Dylid cynnal asesiad cychwynnol o bob dysgwr cyn dechrau ei raglen er mwyn nodi:

- p'un a oes ganddo unrhyw anghenion penodol o ran hyfforddiant
- unrhyw gymorth ac arweiniad y gall fod ei angen arno wrth weithio tuag at ei gymwysterau
- unrhyw unedau y mae eisoes wedi'u cwblhau, neu gredyd y mae wedi'i gronni sy'n berthnasol i'r cymwysterau
- y math a'r lefel briodol o gymhwyster.

Argymhellwn fod canolfannau yn cynnig rhaglen sefydlu fel bod y dysgwyr yn deall gofynion y cymhwyster, eu cyfrifoldebau fel dysgwr, a chyfrifoldebau'r ganolfan yn llawn.

Deunyddiau cefnogi

Mae amrywiaeth o adnoddau ar gael ar gyfer y cymwysterau hyn, o wefan y Consortiwm yn www.dysguiechydagofal.cymru. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Deunyddiau Asesu Enghreifftiol
- Canllawiau Addysgu
- Canllaw i Ddysgwyr
- Llawlyfr Gweinyddu.

Trefniadau asesu mewnol

Mae asesiad mewnol ar ffurf asesiad dan reolaeth. Mae tri cham asesu sy'n cael eu rheoli:

- pennu tasgau
- cyflawni tasgau
- marcio tasgau.

Pennu tasgau

Mae'r Consortiwm wedi paratoi cyfres o senarios i'w rhyddhau ymlaen llaw a chwestiynau/tasgau cysylltiedig. Gall canolfannau ddewis y senarios sy'n cael eu rhyddhau ymlaen llaw sy'n fwyaf priodol ar gyfer dysgwr neu grŵp o ddysgwyr. Ni ddylai canolfannau addasu'r senarios sy'n cael eu rhyddhau ymlaen llaw na'r cwestiynau/tasgau cysylltiedig. Gall y ganolfan ddewis pa set o gwestiynau/tasgau mae'n ei defnyddio at bwrpasau asesu (gweler y trefniadau ailsefyll isod). Ond, wrth i ddysgwyr roi cynnig cychwynnol ar unrhyw asesiadau, mae disgwyl i'r canolfannau gylchdroi'r fersiwn o'r cwestiynau/tasgau sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer pob carfan.

Rhaid i ddysgwyr gael copi o'r senario sy'n cael ei ryddhau ymlaen llaw bythefnos cyn yr asesiad. Ni ddylen nhw gael copi o'r cwestiynau/tasgau ar yr adeg hon.

Rhaid i ddysgwyr gael copi o'r Pecyn i Ymgeiswyr ar ddechrau eu hasesiad a rhaid iddyn nhw roi eu hatebion yn y pecyn hwn. Mae'n bosibl darparu tudalennau ychwanegol os oes angen.

Cyflawni tasgau

Bydd yn ofynnol i ganolfannau reoli a chynnal y drefn asesu mewnol yn unol â'r egwyddorion a amlinellir yn nogfen y CGC: Cyfarwyddiadau ar gynnal asesiadau di-arholiad sydd i'w gweld yn <https://www.jcq.org.uk/exams-office/non-examination-assessments/instructions-for-conducting-non-examination-assessments>.

Mae pum agwedd ar gyflawni tasgau sy'n cael eu rheoli: amser, adnoddau, goruchwyliaeth, cydweithio a threfniadau ailsefyll.

Amser

60 munud sydd gan ddysgwyr i gwblhau pob asesiad. Nodir hyn ar flaen y Pecyn i Ymgeiswyr ac ni ddylid mynd drosto.

Adnoddau

Gall dysgwyr fynd â hyd at ddwy dudalen A4 o nodiadau i'r amgylchedd asesu. Gall ymgeiswyr ysgrifennu'r nodiadau neu ddefnyddio prosesydd geiriau. Dylai'r nodiadau hyn fod wedi'u hysgrifennu yng ngeiriau'r ymgeisydd ei hun. Gallen nhw gyfeirio'n uniongyrchol at feysydd a ymchwiliwyd ganddyn nhw ar ôl gweld y senario sy'n cael ei ryddhau ymlaen llaw (e.e. cyfeiriadau at ddeddfwriaeth benodol, diffiniadau allweddol ac ati).

Cyfrifoldeb yr athro/aseswr yw adolygu'r nodiadau y mae dysgwyr yn bwriadu mynd gyda nhw i'r amgylchedd asesu gan wneud eu siŵr eu bod yn cyfateb i'r arweiniad uchod. Os oes gan athro/aseswr unrhyw bryderon ynghylch dilysrwydd y nodiadau dylent atal yr asesiad rhag digwydd a dilyn unrhyw weithdrefnau mewnol sydd ar waith i ymdrin ag achosion lle mae amheuaeth o gamymddwyn. Dylai canolfannau ofyn cyngor eu Swyddog Sicrhau Ansawdd Allanol (SSAA) os nad ydynt yn siŵr sut i fynd ymlaen.

Rhaid i'r ganolfan gadw'r holl nodiadau a ddefnyddiwyd gan yr ymgeisydd a dylai'r rhain fod ar gael i'w hystyried yn rhan o'r prosesau sicrhau ansawdd allanol.

Gall CP/gliniaduron, tabledi, geiriaduron gan gynnwys geiriaduron dwyieithog fod ar gael i ddysgwyr. Ni chaniateir ffonau symudol na dyfeisiau trosglwyddo/derbyn eraill ac ni ddylai'r ymgeisydd gael mynediad at y rhyngrwyd yn ystod yr asesiad.

Y canolfannau sy'n gyfrifol am sicrhau bod dysgwyr yn ymwybodol o'r adnoddau hynny y mae ganddyn nhw'r hawl i fynd â nhw i mewn i'r amgylchedd asesu.

Goruchwyliaeth

Os nad yw dysgwr dan oruchwyliaeth uniongyrchol drwy gydol yr asesiad, dylai canolfannau allu sicrhau mai gwaith yr ymgeisydd ei hun yw'r gwaith mae unrhyw ymgeisydd unigol yn ei gyflwyno i'w asesu.

Gall dysgwyr adolygu ac ailddrafftio tystiolaeth yn annibynnol o fewn terfynau amser yr asesiad. Ni ddylai aseswyr roi mewnbwn nac arweiniad i ddysgwyr yn ystod amser yr asesiad dan reolaeth. Mae hyn yn cynnwys rhoi adborth ffurfiannol ar y dystiolaeth sy'n cael ei chyflwyno.

Mae'n rhaid i ddysgwyr lofnodi datganiad i gadarnhau mai eu gwaith nhw yw'r holl dystiolaeth a gyflwynwyd i'w dilysu a bod unrhyw ffynonellau a ddefnyddiwyd wedi'u cydnabod. Mae'n rhaid i aseswyr lofnodi datganiad i gadarnhau bod y dystiolaeth a gyflwynwyd i'w dilysu wedi'i chwblhau dan reolaeth fel y nodir yn y Pecyn Aseiniad.

Cydweithio

Rhaid i'r asesiadau gael eu cwblhau'n annibynnol gan y dysgwr. Ni chaniateir gwaith grŵp.

Trefniadau ailsefyll

Mae dysgwyr yn cael ailsefyll asesiadau mewnol. Pan fydd angen i ddysgwr ailsefyll asesiad, gall ddefnyddio'r senario sydd wedi'i ryddhau ymlaen llaw ond rhaid defnyddio set newydd o gwestiynau/tasgau. Cyflwynir tair set o gwestiynau gyda phob senario sy'n cael ei ryddhau ymlaen llaw, sy'n golygu bod dysgwyr yn cael cynnig cyntaf a hyd at ddau gyfle i ailsefyll. Pan fydd dysgwr wedi rhoi cynnig ar y tair set o gwestiynau, rhaid defnyddio senario sy'n cael ei ryddhau ymlaen llaw newydd a chwestiynau cysylltiedig ar gyfer unrhyw achos o ailsefyll yn y dyfodol. Os bydd gofyn i unrhyw ymgeisydd ailgyflwyno asesiad ar ôl monitro allanol, dim ond yr asesiadau a fethwyd y bydd angen eu hailgyflwyno. Ni fydd angen ailgyflwyno unrhyw asesiadau a basiwyd.

Marcio tasgau

Mae'n rhaid marcio'r holl dystiolaeth yn erbyn y cynllun marcio fydd wedi'i ddarparu. Rhaid i'r dystiolaeth sy'n cael ei marcio gydymffurfio â gofynion rheoledig a nodir yn y Pecyn Asesu a rhaid ei hanodi er mwyn dangos sut mae'n ymwneud â'r meini prawf asesu a'r marciau sydd ar gael.

Dim ond aseswr dynodedig a ddylai farcio tasgau. Dylai aseswr feddu ar arbenigedd priodol yn y pwnc a'r lefel ar gyfer uned benodedig. Mae'r aseswr yn gyfrifol am sicrhau'r canlynol:

- bod yr asesiad yn cael ei chynnal dan amodau rheoledig penodol
- eu bod yn gyfarwydd â gofynion y deilliannau dysgu, y meini prawf asesu a'r marciau sydd ar gael cyn dechrau asesiad dan reolaeth
- bod y dystiolaeth a gyflwynir i'w hasesu yn ddilys
- bod penderfyniadau asesu yn cael eu cofnodi'n gywir
- bod tystiolaeth wedi'i hanodi'n briodol, gan gofnodi'n glir y marc a ddyfarnwyd am bob cwestiwn ar y daflen farciau ar flaen pecyn yr ymgeisydd
- bydd dyfarniadau'n cael eu seilio ar y cynllun marcio a'r marciau sydd ar gael yn unig.

Pan fydd y marcio wedi'i gwblhau a gradd llwyddo wedi'i dyfarnu, dylai'r aseswr lwytho canlyniad yr asesiad i system IAMIS CBAC. Bydd gweithgareddau monitro allanol yn digwydd pan fydd yr holl asesiadau mewnol wedi'u cwblhau a'u cyflwyno. Dylai aseswyr gadw tystiolaeth o'u marcio, gan gynnwys copiâu o ymatebion yr ymgeiswyr a'u taflenni marciau wedi'u cwblhau i'w monitro'n allanol.

Monitro asesiad mewnol yn allanol

Mae prosesau sicrhau ansawdd allanol ar waith i gadarnhau dilysrwydd a dibynadwyedd penderfyniadau asesu mewnol mae staff canolfannau'n eu gwneud.

Bydd gwaith asesu mewnol yn cael ei fonitro'n allanol er mwyn sicrhau cysondeb a dilysrwydd penderfyniadau asesu'r ganolfan. Cynhelir yr asesu allanol unwaith y bydd yr holl asesiadau mewnol wedi'u cwblhau. Bydd y drefn hon yn cynnwys gwirio sampl o waith ymgeiswyr yn allanol. SSAA cymwysedig fydd yn cyflawni unrhyw waith monitro a gwirio a bydd y ganolfan yn derbyn adborth ysgrifenedig ffurfiol.

Bydd y Consortiwm yn ymchwilio i unrhyw achos sylweddol o ddiffyg cydymffurfio neu unrhyw bryder a ddaw'n amlwg wrth fonitro'n allanol. Yn dilyn hyn, mae'n bosibl y bydd camau gwella priodol a/neu sancsiynau priodol yn cael eu rhoi ar waith. Mewn rhai achosion gall ymchwiliadau arwain at ddadymrestru'r ganolfan neu'r canolfannau dan sylw.

I gael rhagor o wybodaeth am y broses monitro allanol, gweler y Llawlyfr Gweinyddu sydd ar gael ar wefan y Consortiwm yn www.dysguiechydagofal.cymru.

Trefniadau asesu allanol

Mae'n bosibl sefyll y prawf dewis lluosog naill ai ar-sgrin gan ddefnyddio llwyfan profi seiliedig ar gyfrifiaduron CBAC, neu fel prawf ar bapur.

Defnyddir amodau arholiad dan oruchwyliaeth ar gyfer sefyll y prawf. Gweler y gofynion CGC am fanylion: <http://www.jcq.org.uk/exams-office/ice---instructions-for-conducting-examinations>

I gael rhagor o wybodaeth am gofrestru, trefniadau mynediad ac arweiniad am gynnal y profion, gweler y Llawlyfr Gweinyddu sydd ar gael ar wefan y Consortiwm yn www.dysguiechydagofal.cymru.